# Dinas a Sir Abertawe

# Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb 2015/16
# (Y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016)

**Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb 2015/16**

## 1. Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Adolygu Cydraddoldeb Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2015-16. Dyma'n pumed adolygiad dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac mae'n adlewyrchu'r rheoliadau adrodd newydd ar gyfer Cymru, a gyflwynwyd yn 2011.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am:

- Adolygiad cynnydd terfynol ar gyfer Amcanion Cydraddoldeb 2012 - 2016
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth a hyfforddiant
- Gwybodaeth ychwanegol sy'n berthnasol i'n dyletswyddau deddfwriaethol.

## 2. Adolygu'r Amcanion Cydraddoldeb

Cynhaliwyd yr adolygiad blynyddol rhwng misoedd Mai a Mehefin 2016 a rhoddodd pob adran fanylion am ei chynnydd. Mae'r holl wybodaeth hon i'w gweld yn Atodiad 1. Erbyn hyn, nodir bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau a/neu'n parhau fel rhan o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd. Bydd nifer bellach yn rhan o'r adroddiad hwn yn hytrach nag ar ffurf wrthrychol.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2016 – 2020 a fabwysiadwyd gan y cyngor ym mis Mawrth 2016 ac sydd ar gael yn www.abertawe.gov.uk/cynlluncydraddoldebstrategol mewn fersiynau llawn, cryno a hawdd eu darllen.

## 3. Gwybodaeth am Gydraddoldeb

Rydym wedi parhau i ddefnyddio'r wybodaeth am gydraddoldeb a gasglwyd yn ystod 2011-12, ac rydym wedi ychwanegu ati trwy lawer o'r gweithgareddau y sonnir amdanynt trwy gydol yr adroddiad hwn. Yn ogystal â hyn:

- Rydym yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth am gydraddoldeb er mwyn cyfeirio ein Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC); mae hyn yn amrywio yn ôl pwnc, perthnasedd a ffocws yr AEC.
- Cwblheir asesiad o anghenion er mwyn cyfeirio Cynllun Integredig Sengl Abertawe – Cynllun Un Abertawe: http://www.abertawe.gov.uk/asesiadanghenionstrategol
- Cynhelir trydydd Uwch-arolwg Plant a Phobl Ifanc ar draws ysgolion uwchradd yn Abertawe yn nhymor haf 2016 i geisio barn pobl ifanc am bethau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r wybodaeth a gasglwyd o'r arolwg wedi bwydo i mewn i gynllunio gwasanaethau a datblygiadau a helpu i ddangos y gwaith rydym yn ei wneud ar hyn o bryd ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Bydd yr Uwch-arolwg PPhI yn cael ei gynnal bob chwe mis, yn ogystal ag arolwg sydd newydd gael ei ddatblygu sy'n diwallu anghenion pobl ag anghenion dysgu ychwanegol, er mwyn i ni allu sicrhau ein bod yn casglu barn cynifer o blant a phobl ifanc ag y bo modd. Caiff

canlyniadau o'r arolwg eu cymharu â'r flwyddyn flaenorol i fesur y pellter a deithiwyd.
- Mae cydweithwyr yn y Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth yn parhau i ddatblygu ein gwybodaeth a'n data corfforaethol, yn benodol trwy ganlyniadau cyfrifiad 2011 sy'n dod i'r amlwg. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn Atodiad 1 (Amcan Cydraddoldeb 2).

**4. Gwybodaeth am Gyflogaeth a Hyfforddiant**
Gweler Atodiad 2 am yr wybodaeth hon.

**5. Gwybodaeth Ychwanegol**
Mae'r adran hon yn rhoi manylion cryno am ein gwaith arall sy'n berthnasol i ofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn ystod 2015-16.

5.1 Pwyllgor Cynghori'r Cabinet (PCC) ar Gynnwys a Chynhwysiad
Cylch gwaith PCC (sy'n cynnwys cynghorwyr) yw cynorthwyo'r Aelod Cabinet perthnasol ar faterion sy'n ymwneud â'r ymrwymiadau polisi a fabwysiadwyd gan y cyngor.

Disodlwyd PCC ar Gynnwys a Chynhwysiad gan PCC - Gwasanaethau Corfforaethol ym mis Medi 2015. Hefyd, sefydlwyd PCC ar Atal a Diwygio Gofal Cymdeithasol, ac mae hwn hefyd yn edrych ar faterion cydraddoldeb.

Roedd cyfarfodydd PCC trwy gydol 2015-16 yn canolbwyntio ar y materion/meysydd gwaith canlynol:
- Canlyniadau arolygon staff
- Mannau di-fwg
- Cydraddoldeb a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Safonau'r Gymraeg
- Dadansoddiad o'r Gweithlu Benywaidd
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Dementia
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

Rhai o ganlyniadau'r materion hyn yw:
- Ysgolion yn cael eu hannog i ddynodi gatiau ysgol yn fannau di-fwg
- Treialu traeth di-fwg yn Abertawe
- Gorfodi dim smygu'n fwy llym mewn lleoedd chwarae
- Adolygu 3 phwnc allweddol i ddatblygu argymhellion:

1. Menywod yn ychwanegu gwerth at yr economi
2. Grantiau Buddsoddi i Arbed
3. Creu adnodd asiantaeth fewnol

Am fwy o wybodaeth ac i weld cofnodion y cyfarfodydd pwyllgor, ewch i http://democracy.swansea.gov.uk/ieDocHome.aspx?bcr=1&LLL=0?Lang=cy.

5.2 Aelodau Hyrwyddo Cydraddoldeb
Mae ein haelodau hyrwyddo'n ymwneud â holl nodweddion gwarchodedig y Ddeddf Cydraddoldeb (yn ogystal â themâu ehangach megis iechyd a lles, gofalwyr a cham-drin yn y cartref).

Nod yr aelodau hyrwyddo yw rhoi llais i grwpiau neu faterion nad ydynt fel arfer wedi'u cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol ac y mae angen eu cadw yn rheng flaen busnes y cyngor er nad ydynt efallai'n gyfrifoldeb i'r un unigolyn neu bwyllgor.

Mae aelodau hyrwyddo'n sicrhau bod y mater neu'r grŵp y maent yn ei hyrwyddo'n cael ei ystyried wrth lunio polisïau a gwneud penderfyniadau'r cyngor. Maent yn llunio adroddiadau rheolaidd i PCC - Gwasanaethau Corfforaethol.

Am fwy o fanylion, ewch i
http://democracy.swansea.gov.uk/mgListOtherPosts.aspx?bcr=1&LLL=1

5.3 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (AEC)
Rydym yn parhau i ddefnyddio ein proses AEC estynedig, sy'n cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), gofalwyr, cydlyniant cymunedol, tlodi, eithrio cymdeithasol a'r Gymraeg. Fel bob amser, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau bod y broses yn parhau i fod yn hwylus i ddefnyddwyr, yn effeithiol ac yn ymarferol i gydweithwyr ar draws y sefydliad.

Mae ein protocol Cydraddoldeb a Chynnwys (i sicrhau bod AEC yn cael eu holrhain a'u monitro trwy broses adrodd a phenderfynu'r cyngor) yn parhau i fod yn ddefnyddiol iawn wrth sicrhau yr ystyrir materion cydraddoldeb ac yr eir i'r afael â hwy lle y bo angen.

Mae ein proses cynllunio gwasanaeth hefyd yn cynnwys arweiniad ac offer ar gyfer sgrinio AEC a'u cynnal.

Mae'r holl adroddiadau AEC yn parhau i gael eu cyhoeddi ar www.abertawe.gov.uk/aec ac mae cyllideb y cyngor hefyd yn destun y broses AEC.

5.4 Ymgynghori a Chynnwys
Mae gwybodaeth am ein dulliau a'n trefniadau ymgynghori a chynnwys ar gael yn www.abertawe.gov.uk/lleisiwcheichbarn. Rhoddir diweddariad ychwanegol yn Atodiad 1 – gweler Amcan Cydraddoldeb 1.

Yn dilyn gwaith y llynedd, rydym wedi parhau i ddatblygu ein perthynas â grwpiau cymunedol lleol:

- Fforwm LGBT

Mae'r cyngor yn gwerthfawrogi cymuned lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol a thrawsrywiol (LGBT) y ddinas yn fawr ac mae gwaith yn parhau gyda sefydliadau partneriaeth i gefnogi mentrau i herio rhagfarn a gwahaniaethu a

chynyddu ymwybyddiaeth o gyfraniad cadarnhaol dinasyddion LGBT i Ddinas a Sir Abertawe.

Dechreuodd Fforwm LGBT Bae Abertawe ym mis Chwefror 2012 ac mae'n parhau i fynd o nerth i nerth. Rheolir y fforwm gan Ddinas a Sir Abertawe mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru ac mae ei haelodau'n cynnwys gweithwyr a gwirfoddolwyr o sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli diddordebau dinasyddion LGBT.

Mae'r sefydliadau a gynrychiolir yn cynnwys:
- Bi Cymru
- Cymorth i Ddioddefwyr
- Age Cymru Bae Abertawe
- Trawsryweddol yng Nghymru
- Tawe Butterflies
- Ymddiriedolaeth Terrence Higgins
- Cymdeithas LGBT Prifysgol Abertawe
- Prosiect Undod LGBT Abertawe
- Stonewall Cymru

yn ogystal â sefydliadau sector cyhoeddus megis y DVLA, Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r Gwasanaeth Ambiwlans.

Gyda'i gilydd, mae aelodau'r fforwm wedi cefnogi a chymryd rhan mewn digwyddiadau megis Swansea Sparkle, Diwrnod Rhyngwladol yn Erbyn Homoffobia a Thrawsffobia (IDAHOT), Mis Hanes LGBT, Balchder Abertawe a Diwrnod Deu-welededd. Dathlodd Dinas a Sir Abertawe bob achlysur ymhellach trwy chwifio'r Faner Enfys y tu allan i adeilad y Ganolfan Ddinesig. Cafodd y faner drawsrywedd ei chwifio hefyd ar gyfer Dydd Cofio Pobl Drawsryweddol ac ar gyfer Swansea Sparkle yn 2015.

Mae cyfarfodydd fforwm wedi cynnwys cyfnewid gwybodaeth a thrafodaethau a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:
- Digartrefedd
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Gweithio gydag ysgolion
- Rhoi'r gorau i smygu
- Troseddau casineb
- Gwasanaethau Cefnogi Ymgynghorol Cydraddoldeb
- Hunaniaeth rhywedd a heneiddio
- Sgrinio iechyd
- Gofalwyr
- Mis Hanes LGBT

➢ Fforwm BME

Nid yw Fforwm Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) Bae Abertawe wedi cyfarfod cyn fynyched eleni. Ym mis Mai 2015, penderfynodd y fforwm gynnal dau gyfarfod y flwyddyn. Mae cyfathrebu'n parhau trwy e-bost.

Mae cyfarfodydd fforwm wedi cynnwys gwybodaeth a thrafodaethau ar y canlynol:

- Y Diweddaraf am y Gwasanaethau Diwylliannol
- Ffrwd Waith Chwarae BME
- Arian y Trydydd Sector

5.5 Troseddau Casineb

Mae gan Gynllun Cyflawni Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol 2014-16, a fabwysiadwyd yn lleol, ganlyniad penodol ar droseddau casineb (Canlyniad 1 - adrannau, sefydliadau a phobl yn deall troseddau casineb, dioddefwyr yn gwneud adroddiadau ac yn cael cefnogaeth briodol). I gyflawni'r amcan hwn, mae'r cyngor wedi llunio Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb lleol gyda phartneriaid allweddol (i gyd-fynd â 'Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb a Digwyddiadau: Fframwaith Gweithredu' Llywodraeth Cymru). Mae gan y Cynllun Gweithredu Troseddau Casineb hwn gan randdeiliaid amlasiantaeth 3 amcan strategol allweddol:

- atal troseddau casineb
- cynyddu adrodd a mynediad i gefnogi dioddefwyr
- gwella'r ymateb amlasiantaeth i droseddau casineb

I gynyddu adrodd am droseddau casineb, cydlynodd grŵp tasg a gorffen amlasiantaeth weithgareddau amrywiol ar gyfer wythnos ymwybyddiaeth troseddau casineb ym mis Hydref 2015. Datblygodd galendr digwyddiadau ar draws Dinas a Sir Abertawe a oedd yn cynnwys bordydd gwybodaeth a osodwyd mewn lleoliadau megis y Ganolfan Ddinesig a Phrifysgol Abertawe yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb. Hefyd, arddangoswyd taflenni troseddau casineb mewn lleoliadau cyhoeddus a chymunedol.

Yn Abertawe, bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) yn cynnwys troseddau casineb fel thema allweddol. Bydd y gwaith hwn yn dilyn yr amcan cydraddoldeb troseddau casineb presennol yn CCS presennol Abertawe.

Yn Abertawe, parhaodd sesiynau ymwybyddiaeth troseddau casineb i gael eu cyflwyno i sefydliadau partner a staff y cyngor gan Gymorth i Ddioddefwyr. Mae'r cyngor yn hyrwyddo'r broses adrodd am gasineb ac aflonyddu drydydd parti a weinyddir gan Gymorth i Ddioddefwyr. Gall Cymorth i Ddioddefwyr gynnig amrywiaeth o wasanaethau a gall deilwra cefnogaeth ar gyfer anghenion pob dioddefwr, a all gynnwys:

- Cefnogaeth emosiynol
- Cefnogaeth ymarferol
- Eiriolaeth neu gyfiawnder adferol

Am fwy o wybodaeth, ewch i http://www.reporthate.victimsupport.org.uk/hate-crime/

5.6 Cydlyniant Cymunedol

Mae Abertawe'n ystyried llunio Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol lleol newydd ar gyfer 2016-17, e.e. caiff tair colofn newydd eu hychwanegu ar gyfer gweithredoedd lleol (penodol i Abertawe) i ddangos cyfraniad Abertawe i

gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol. Mae ein Grŵp Arweinyddiaeth yn parhau i sicrhau cynnydd a monitro. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Atodiad 1 (gweler Amcan 16).

5.7 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
Ers mis Medi 2013, pan mai ni oedd yr awdurdod lleol cyntaf i fabwysiadu dyletswydd 'sylw priodol' o ran hawliau plant, rydym wedi llunio Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc.

Mae'r Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc yn nodi'r trefniadau sydd gan Ddinas a Sir Abertawe i sicrhau cydymffurfio â'r ddyletswydd sylw priodol ar gyfer sefydlu CCUHP yn fframwaith polisi'r awdurdod lleol.

Lansiwyd y cynllun gan Lysgennad Unicef y DU a'r actor o Gymru, Michael Sheen, a ymunodd â 111 o blant a chynrychiolwyr o Abertawe yn Ysgol Gyfun Pentrehafod ddydd Iau, 20 Tachwedd 2014. Roedd y digwyddiad hefyd yn dathlu 25 mlynedd ers sefydlu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), ac ynddo roedd plant, pobl ifanc ac oedolion yn gweithio gyda'i gilydd mewn cyfres o weithgareddau'n seiliedig ar hawliau.

Mae'r prif amcanion ar gyfer 2014/15 wedi canolbwyntio ar gwblhau'r Cynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc a sefydlu prosesau i'w roi ar waith, gan alluogi cydymffurfio â hawliau plant yn Ninas a Sir Abertawe, eu monitro a'u hamlygrwydd, a hefyd fesur effaith y Cynllun Hawliau PPhI.

Mae Cynllun Gweithredu CCUHP 2016-16 wedi'i lunio sy'n seiliedig ar flaenoriaethau a nodwyd yn glir ar gyfer y flwyddyn ac sy'n cwmpasu ymagwedd cyngor cyfan at hawliau plant.

Mae chwe maes allweddol sy'n canolbwyntio ar:

1. Wneud trefniadau yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer hyrwyddo a hwyluso cyfranogiad gan blant ym mhenderfyniadau'r awdurdod a allai effeithio arnynt, fel sy'n ofynnol dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.
2. Datblygu gwybodaeth am CCUHP a dealltwriaeth ohono trwy hyfforddiant i'r holl staff a'r rhai sy'n penderfynu yn Ninas a Sir Abertawe, gan gynnwys partneriaid statudol a gwirfoddol allweddol eraill.
3. Hyrwyddo CCUHP a chynyddu ymwybyddiaeth ohono.
4. Sicrhau bod dulliau priodol a chadarn ar waith i dderbyn adborth a chwynion o ran CCUHP.
5. Sicrhau cydymffurfio â dyletswydd sylw priodol CCUHP, ei atebolrwydd a'i effaith, sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
6. Caiff yr adroddiad cynnydd cyntaf ar y ddyletswydd sylw priodol ar gyfer sefydlu CCUHP yn fframwaith polisi'r awdurdod lleol ei lunio ym mis Medi 2015 ac mae'n llywio amcanion yn y cynllun gweithredu blynyddol.

Mae hawliau plant bellach wedi'u hymgorffori'n llwyr yn y broses AEC a'n cynllun cydraddoldeb strategol yn Ninas a Sir Abertawe.  Bu'n ofynnol i bob maes gwasanaeth bennu o leiaf dri amcan CCUHP, gyda ffocws ar:

1. Hyfforddiant a gwybodaeth a dealltwriaeth gynyddol o CCUHP ym mhob maes gwasanaeth
2. Hyrwyddo CCUHP a chynyddu ymwybyddiaeth ohono ym mhob maes gwasanaeth trwy wneud y cysylltiad pendant â'r erthyglau perthnasol a defnyddio "Dilly" (y logo hawliau plant ar gyfer Abertawe).
3. Cydymffurfio â'r broses AEC.

5.8 <u>Addysg ac Ysgolion</u>
Mae ein partner gwella ysgolion rhanbarthol, ERW, yn parhau i weithio gyda Stonewall i gynnig digwyddiadau Hyfforddi'r Hyfforddwr i ysgolion sy'n rhoi'r offer, y technegau a'r hyder angenrheidiol i gyfranogwyr hyfforddi staff eraill yn yr ysgol i fynd i'r afael â bwlio homoffobig ac ystrydebau rhywedd ac i ddathlu gwahaniaeth. Mae hyn hefyd yn rhoi aelodaeth Ysgol Hyrwyddo Stonewall i'r ysgolion sy'n cymryd rhan.

Mae offeryn wedi'i ddatblygu a'i lansio er mwyn i ysgolion gofnodi bwlio ac aflonyddu sy'n seiliedig ar hunaniaeth.  Roedd y broses Digwyddiadau Hiliol flaenorol yn hen ffasiwn o ran ei chynnwys a'i gweithredu fel ymarfer gweinyddol.  Lansiwyd hyn yn ystod tymor yr hydref. Fodd bynnag, mae'r derbyniad wedi bod yn araf ac mae angen rhagor o waith i hyrwyddo'r offeryn hwn i ysgolion.

Mae ein gwaith gyda Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi parhau yn 2015-2016 ac mae arian ar gael i barhau â gweithdai yn ein hysgolion yn 2016-2017.

5.9 <u>Gwaith gyda Phobl Hŷn</u>
Mae gwaith ar gyflwyno Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a Rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru Llywodraeth Cymru'n lleol wedi cynnwys:

- Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe a Bwrdd Dinas Iach Heneiddio'n Dda a Chynllun Gweithredu Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn <u>http://www.abertawe.gov.uk/heneiddiondda</u>
  Cynrychiolwyd aelodau Grŵp Cyfeirio Rhwydwaith 50+ Abertawe yng ngrŵp partneriaeth y Cynllun Heneiddio'n Dda a sefydlwyd i oruchwylio datblygu'r cynllun ac roedd aelodau hefyd yn bresennol ym mhob un o'r 4 grŵp thema Heneiddio'n Dda i gymryd rhan wrth lunio'r cynllun.
- Digwyddiad yn Theatr y Grand i nodi Diwrnod Pobl Hŷn y DU yr aeth bron 300 o bobl iddo
- Cyfarfod blynyddol y Rhwydwaith 50+.

5.10 <u>Tlodi</u>
Mae trechu tlodi'n parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r cyngor gyda'r Strategaeth Tlodi'n cael ei rhoi ar waith trwy'r themâu allweddol hyn:

- Grymuso pobl leol
- Newid diwylliannau
- Targedu adnoddau.

Mae dros 40% o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu ar gyfer trechu tlodi wedi dechrau gyda llawer ohonynt yn cael eu datblygu'n barhaus ac mae rhai ohonynt wedi'u cyflawni. Mae'r fframwaith rheoli perfformiad yn cwmpasu canlyniadau a mesurau Cynllun Un Abertawe, gyda thargedau ar gyfer 2017 a 2020, yn ogystal â chyfeiriadau at raglenni gwaith presennol ar draws y cyngor a'n partneriaid. Mae trefniadau ar waith ar gyfer meysydd gwasanaeth ar draws DASA i nodi'r cam gweithredu y byddant yn ei gymryd sy'n cyfrannu i'r agenda trechu tlodi yn y broses cynllunio busnes. Mae'r Fforwm Tlodi mewnol yn cydlynu cynnwys gwasanaethau'r cyngor yn ehangach, yn ogystal â Fforwm Tlodi Partneriaeth Abertawe newydd sy'n cefnogi cyflawni ehangach ar draws Abertawe, yn enwedig gyda'r sector gwirfoddol.
Mae pum blaenoriaeth strategol allweddol y cyngor yn cynnwys blaenoriaeth gorfforaethol newydd ar gyfer trechu tlodi gan adeiladu ar ei natur drawsbynciol a chynnwys budd-daliadau, addysg a phobl ifanc.

5.11 Diwygio Lles
Yn dilyn gwaith blaenorol i leihau effaith negyddol diwygio lles, mae'r gweithgarwch presennol wedi cynnwys y canlynol:

- Datblygodd y Grŵp Llywio Cynhwysiad Ariannol (FISG) Gynllun Gweithredu Cefnogaeth Gyffredinol wedi'i Chyflwyno'n Lleol yn erbyn y themâu gofynnol i sicrhau parodrwydd ar gyfer Credyd Cynhwysol a chefnogaeth briodol i hawlwyr: Cynhwysiad digidol; Cynhwysiad ariannol; Partneriaeth; Blaenoriaethu.
- Ar hyn o bryd, mae FISG yn disgwyl cyfarwyddyd gan y Fforwm Tlodi ynghylch sut ymdrinnir â rhai bylchau yn y cynllun hwnnw (e.e. mae'n debyg nad oes Strategaeth Cynhwysiad Digidol gorfforaethol neu bartneriaeth ar gyfer Abertawe), wrth geisio cyflawni ac olrhain cynnydd lle bynnag y bo modd.

5.12 Cam-drin yn y Cartref
Mae'r Siop dan yr Unto (OSS) Cam-drin yn y Cartref yn parhau i fod yn allweddol ar gyfer cyflwyno partneriaeth amlasiantaeth ar gyfer gwasanaethau cam-drin yn y cartref. Yn ystod y flwyddyn gyntaf roedd ar agor (2015-16), cafwyd ychydig dros 5,000 o ymweliadau i ddefnyddio'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael. Mae'r rhain yn amrywio o wasanaeth galw heibio, rhaglen ryddid, rhaglen faethu, cymorthfeydd ar gyngor cyfreithiol, camddefnyddio sylweddau, cyngor ar ddyledion a gweithgareddau megis coffi a chrefftau, ioga, ystyrioldeb a therapïau amgen a chwnsela. Mae gwasanaethau'r OSS yn cael eu monitro gan y Grŵp Llywio sy'n ceisio darparu gwasanaethau sy'n cwmpasu continwwm gofal i ofal atal, gofal brys ac ôl-ofal.

Mae gwaith strategol wedi cynnwys edrych ar effaith bosibl y dyletswyddau yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar roi dyletswydd 'Gofyn a Gweithredu' ar waith a rhoi rhaglen hyfforddiant strwythuredig ar waith ynghylch hyn.

Mae cynyddu ymwybyddiaeth a'r agenda atal yn parhau i fod yn ffocws, gyda nifer o ddiwrnodau cynyddu ymwybyddiaeth yn cael eu trefnu. Cynigiodd

Diwrnod Iechyd a Lles a gynhaliwyd yn yr OSS amrywiaeth o wybodaeth a gweithgareddau gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, cefnogaeth magu plant, therapïau amgen, YMCA, ioga, ystyrioldeb a chefnogaeth astudiaeth 3ydd sector. Mae Diwrnod y Rhuban Gwyn (Diwrnod Diddymu Trais yn erbyn Menywod) yn parhau i fod yn ffocws ein gwaith cynyddu ymwybyddiaeth gyda chefnogaeth gan y Gweilch a'r Elyrch sy'n allweddol wrth helpu i gyflwyno neges gadarnhaol i fechgyn a dynion yn y gymuned.

5.13 Hyfforddiant

Mae'r gweithgareddau hyfforddiant canlynol y cafodd aelodau a swyddogion fynediad iddynt wedi parhau yn 2015 - 2016:

- Ymwybyddiaeth o wrthgaethwasiaeth/fasnachu pobl
- Ymwybyddiaeth o droseddau casineb
- Ymwybyddiaeth o sipsiwn a theithwyr

5.14 Fersiwn Hawdd ei Darllen

Y llynedd, cyhoeddasom ein hadolygiad blynyddol mewn tri fformat:

- adroddiad Llawn
- crynodeb
- fersiwn hawdd ei darllen.

Byddwn yn gwneud yr un peth eleni i sicrhau bod gwybodaeth mor hawdd cael mynediad iddi ag y bo modd.

5.15 Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (GCDC)

O ganlyniad i'n haelodaeth partneriaeth GCDC, mae gennym ymagwedd gydlynol at bob math o ddehongli a chyfieithu, gan gynnwys darpariaeth dros y ffôn ac wyneb yn wyneb. Nid yw hyn yn cynnwys cyfieithu Cymraeg-Saesneg mewnol gan ein huned gyfieithu.

Y pum iaith bennaf y gofynnwyd amdanynt yn 2015 - 2016 oedd:

1. Rwmaneg
2. Arabeg
3. Pwyleg
4. Ffrangeg
5. Mandarin

Yn fuan, bydd gennym wasanaeth negeseuon testun i breswylwyr.

5.16 Y Gronfa Newid

Trwy'r Gronfa Newid, cafodd 16 o sefydliadau mawr a bach eu cefnogi'n ariannol trwy grantiau i gyflwyno gwasanaethau a phrosiectau ar draws Dinas a Sir Abertawe. Mae nifer o'r sefydliadau hyn yn gweithio gyda phobl â nodweddion gwarchodedig, neu'n cynrychioli eu diddordebau.

5.17 Cyllid ar gyfer Plant a Phobl Ifanc LGBT

Trefnwyd bod arian grant ar gael o 1 Ebrill 2013 am hyd at flwyddyn i ddarparu gwasanaeth(au) cefnogi peilot i bobl ifanc LGBT 13-25 oed. Cafodd grantiau eu dyfarnu i ddau sefydliad weithio ar y cyd i ddarparu'r gwasanaeth peilot; comisiynwyd y cynllun peilot hwn ar gyfer 2014/15 a darparwyd cyllideb i barhau â'r prosiect ar gyfer 2015/16 a 2016/17

## 6. Sylwadau Cloi

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi ein galluogi i asesu ein cynnydd yn ystod blwyddyn olaf ein CCS cyntaf. Gwneir cynnydd o hyd yn erbyn yr Amcanion Cydraddoldeb ac rydym yn gadarnhaol iawn am swm yr wybodaeth ychwanegol sydd gennym i'w chyflwyno, ymhell y tu hwnt i'n Hamcanion Cydraddoldeb. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i'r agenda gydraddoldeb a'r cynnydd ychwanegol sy'n cael ei wneud.

Wrth i ni ddod â'r cylch CCS 4 blynedd hwn i ben, edrychwn ymlaen at ein Hamcanion Cydraddoldeb ar gyfer 2016 – 2020, lle bydd ein gwaith yn mynd rhagddo gyda rhai o'n hamcanion yn parhau ac eraill ond yn dechrau.

## Atodiad 1

### Amcanion Cydraddoldeb

**Amcan Cydraddoldeb – Ymgynghori a Chynnwys**

| **Amcan Cydraddoldeb 1** | | |
|---|---|---|
| **Sicrhau bod ymgynghori a chynnwys yn gynhwysol ac yn cynrychioli'r gymuned** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Corfforaethol | | |
| Rhoi Strategaeth Ymgynghori a Chynnwys newydd ar waith | Hydref 2016 | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020 – rydym yn gweithio gydag adrannau eraill i adolygu'r strategaeth gan fod yn rhaid i ni bellach fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y mae cynnwys yn nodwedd allweddol ohoni** |
| Adrannol | | |
| Adfywio Economaidd a Chynllunio | | |
| Sefydlu grŵp swyddogion penodol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Tîm Mynediad i Wasanaethau a'r Adran Adfywio Economaidd a Chynllunio er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion cydraddoldeb allweddol sy'n codi o'r ymgynghoriad ar y rhaglenni gwaith parhaus. | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Wedi'i gwblhau (2015)**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Wrth gydnabod y camau breision sy'n cael eu gwneud wrth wella arferion cyfathrebu a gweithio cyffredinol rhwng y ddau faes gwasanaeth, cytunwyd nad oes angen rhagor o sesiynau grŵp swyddogion ffurfiol.  Wrth symud ymlaen, cytunwyd y byddai sesiynau grŵp swyddogion y dyfodol yn cael eu cynnal yn ôl y galw, e.e. mewn ymateb i newidiadau sylweddol mewn arweiniad neu ddeddfwriaeth yn hytrach na chynnal sesiynau blynyddol, strwythuredig.<br><br>Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb wedi'i ddisodli'n raddol gan amrywiaeth o fforymau sy'n cynrychioli grwpiau anodd eu cyrraedd a |

| | | |
|---|---|---|
| | | sefydliadau cymunedol, e.e. Grŵp Cydgysylltu Anableddau (GCA). Mae hyn wedi galluogi'r gwasanaeth i roi gwybodaeth fwy penodol ac uniongyrchol i amrywiaeth o fforymau. Er enghraifft, wrth ystyried proses y Cynllun Datblygu Lleol, mae cynrychiolydd o'r Tîm Polisi Cynllunio wedi rhoi cyflwyniadau a chyflwyno sesiynau holi ac ateb o'r blaen ar gyfnodau allweddol paratoi'r cynllun i'r grŵp. Bydd y fath sesiynau'n parhau'n ôl yr angen. |
| Diwylliant a Thwristiaeth | | |
| Cysylltu â fforymau/grwpiau trawsrywiol i drafod datblygiadau'r gwasanaeth | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau (2013)**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Wrth wneud cais am y Marc Enfys yng Nghanolfan Hamdden Penyrheol, gwnaed cysylltiadau â fforymau a grwpiau trawsrywiol.<br><br>Trwy'r cysylltiadau hyn, roedd aelod o'r fforwm yn ddigon caredig i gynnal rhai ymweliadau dirgel â chanolfannau hamdden a rhannu ei ganfyddiadau.<br><br>Yn bennaf, roedd yr adborth a gafwyd yn ymwneud â'r angen am ymwybyddiaeth staff, sensitifrwydd, preifatrwydd, bod yn glir am ba gyfleusterau oedd ar gael a gwneud i bobl deimlo bod croeso iddynt, yn union fel gydag unrhyw gwsmer arall. |
| Yn dilyn ymgynghoriad, adolygu'r dichonoldeb a'r dewisiadau i ddarparu gweithgareddau ychwanegol ar draws gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth sydd o ddiddordeb i gymunedau du a lleiafrifoedd ethnig (BME). | Mawrth 2016 | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016 – 2020 gyda ffocws cydraddoldeb ehangach ar gynyddu ymwybyddiaeth a nodi rhwystrau.** |
| Sefydlu proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer digwyddiadau | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016 – 2020 i'r sefydliad cyfan o ran AEC** |

| | | |
|---|---|---|
| mawr a pharhau i ymgynghori â SAFE a Fforwm Anableddau Abertawe. | | |
| Ymgynghori â fforymau lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT) i nodi rhwystrau posibl i gyfranogi. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau (2013)**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Wrth wneud cais am y Marc Enfys yng Nghanolfan Hamdden Penyrheol, gwnaed cysylltiadau â fforymau a grwpiau LGBT.<br><br>Trwy'r cysylltiadau hyn, roedd aelod o'r fforwm yn ddigon caredig i gynnal rhai ymweliadau dirgel â chanolfannau hamdden a rhannu ei ganfyddiadau.<br><br>Yn bennaf, roedd yr adborth a gafwyd yn ymwneud â'r angen am ymwybyddiaeth staff, sensitifrwydd, preifatrwydd, bod yn glir am ba gyfleusterau oedd ar gael a gwneud i bobl deimlo bod croeso iddynt, yn union fel gydag unrhyw gwsmer arall. |
| Tai | | |
| Datblygu, drafftio, ymgynghori a hysbysebu ynghylch Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid Lleol wedi'i diweddaru. | Ebrill 2012 ac yn barhaus | **Wedi'i gwblhau (2015)**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Ar gyfer y strategaeth hon, roedd ymgynghori â rhanddeiliaid yn cynnwys holiadur, sesiynau galw heibio a digwyddiadau wyneb yn wyneb. |

**Amcan Cydraddoldeb – Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth**

| **Amcan Cydraddoldeb 2** | | |
|---|---|---|
| **Cynyddu ymwybyddiaeth staff o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth a chyflwyno rhaglen hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth well wedi'i diweddaru** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Corfforaethol | | |

| | | |
|---|---|---|
| Adolygu'r deunydd a'r adnoddau hyfforddi sy'n ymwneud â hyfforddiant cydraddoldeb a hyfforddiant AEC | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau (2013)**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cwblhawyd yr holl hyfforddiant ac adnoddau sy'n ymwneud â hyfforddiant cydraddoldeb ac AEC yn 2013 i adlewyrchu cyflwyno'r Ddeddf Cydraddoldeb. |
| Ystyried datblygiadau darpariaeth hyfforddiant e-ddysgu/dysgu cyfunol sy'n ymwneud â hyfforddiant cydraddoldeb ac AEC | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau (2013)**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Crëwyd modiwlau e-ddysgu ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth ac AEC er mwyn darparu dysgu cyfunol. |
| I ddechrau, bydd staff allweddol - ond, yn y pen draw, yr holl staff - yn cael hyfforddiant gorfodol ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Parhaus | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020 gyda ffocws ar fynediad i hyfforddiant cynyddu ymwybyddiaeth priodol ar faterion cydraddoldeb** |
| Bydd pob rheolwr yn cael hyfforddiant cynyddu ymwybyddiaeth ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a gweithdrefnau AEC (lle y bo'n briodol) | Parhaus | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020 gyda ffocws ar fynediad i hyfforddiant cynyddu ymwybyddiaeth priodol ar faterion cydraddoldeb** |
| Sicrhau bod pob cwrs hyfforddiant, gan gynnwys y cwrs sefydlu corfforaethol, yn adlewyrchu'r rheoliadau cydraddoldeb a'r arfer gorau diweddaraf | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau (2013)**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Diweddarwyd yr holl gyrsiau hyfforddi i adlewyrchu'r rheoliadau a'r arfer gorau diweddaraf – maent yn parhau i gael eu diweddaru'n ôl yr angen |
| Sicrhau y caiff hyfforddiant corfforaethol ei fonitro i adlewyrchu'r presenoldeb ar bob cwrs hyfforddi corfforaethol yn gywir | Parhaus | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020** |
| Adolygu canllawiau Gwasanaethau Cwsmeriaid (o ran y rhannau sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth) a hyrwyddo'r ddau | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau (2015)**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cymhwyswyd y broses AEC i'r strategaeth gyswllt cwsmeriaid newydd. Bydd yn parhau i gael ei chymhwyso wrth i ddatblygiadau |

| | | |
|---|---|---|
| ymhellach yn y cyngor ac yn allanol. | | newydd ddod. |
| Datblygu'r wybodaeth a'r data sy'n ymwneud â'r holl nodweddion gwarchodedig a chadw darlun demograffig cadarn o Ddinas a Sir Abertawe. | Parhaus | **Ar droed a chaiff ei gynnwys yn adroddiadau adolygu blynyddol y dyfodol:**<br>Mae dadansoddiad y cyngor o nodweddion gwarchodedig yn Ninas a Sir Abertawe wedi'i gynnal a'i ddatblygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda gwybodaeth ddemograffig ychwanegol wedi'i diweddaru ar dudalennau gwe 'Ystadegau' y cyngor.  Mae hyn yn cynnwys rhagor o ddata a dadansoddiad cymdeithasol-ddemograffig o Gyfrifiad 2011 a ffynonellau eraill, a data proffil a dangosyddion yng Nghynllun Un Abertawe 2015 Asesiad Anghenion Strategol'.<br>Cafodd fersiynau newydd o'n proffiliau ardal Abertawe, gan gynnwys data wedi'i ddiweddaru lle mae ar gael ar gyfer wardiau ac ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf, eu cwblhau ym mis Hydref 2015 gyda chyfres arall o ddiweddariadau i ddod yn fuan.  Erbyn hyn, cynhelir dadansoddiad o bobl â nodweddion gwarchodedig yn rheolaidd fel rhan o'r gofyniad monitro cydlyniant cymunedol ar gyfer Llywodraeth Cymru.<br>Bydd dadansoddi gwybodaeth nodweddion gwarchodedig yn parhau i fod yn angenrheidiol yn y flwyddyn/blynyddoedd i ddod at nifer o ddibenion, gan gynnwys fel rhan o asesiad lles lleol Bwrdd y Gwasanaethau Cyhoeddus erbyn dechrau'r flwyddyn nesaf. |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | | |
| Cyflwyno'r Rhaglen Ddysgu Cynhwysiad Cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth staff ar draws DASA o'r materion sy'n wynebu unigolion a grwpiau sy'n cael eu heithrio oherwydd tlodi incwm, gwasanaeth a chyfranogi. | Dechrau Ebrill 2012 | **Wedi'i gwblhau (2013)**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cafodd yr hyfforddiant Mynd i'r Afael â Thlodi yn Abertawe ei dreialu yn ardal Townhill (T1) yn Abertawe ym misoedd Medi a Hydref 2013. Y targed oedd hyfforddi 80 o staff mewn 4 wythnos.<br><br>Cynhaliwyd sesiwn cynyddu ymwybyddiaeth ½ diwrnod i reolwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Roedd 54 o bobl yn bresennol.<br>Cynhaliwyd 4 cwrs deuddydd i staff rheng flaen a datblygu polisi. Roedd 59 o bobl yn bresennol.<br>113 o bobl i gyd.<br><br>Mae adroddiad am y peilot ar gael ar gais. |
| Darparu llinell gyngor hawliau lles am 3 diwrnod yr wythnos i gefnogi staff DASA a sefydliadau partner wrth gyd-drafod y newidiadau sylweddol i'r system fudd-daliadau yn sgîl diwygio lles. | Parhaus | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Yn 2015/16, y targed ar gyfer nifer y dyddiau llinell gyngor oedd 126 a nifer y dyddiau a gyflwynwyd oedd 133. (O'r blaen, roeddem yn cyfrif 'sesiynau' llinell gyngor yn hytrach na dyddiau. Dyma pam mae'n ymddangos bod y nifer hwn yn is nag mewn blynyddoedd cynharach – cynhelir dwy sesiwn mewn un diwrnod.) Ymdriniwyd â 532 o ymholiadau.<br><br>Mae natur ymholiadau'r llinell gyngor wedi dod yn llawer cymhlethach oherwydd:<br>• Mae staff rheng flaen sydd wedi mynd i'n rhaglenni hyfforddi wedi magu hyder a dod yn gymwys wrth ymdrin â materion sylfaenol eu hunain<br>• Bu nifer o newidiadau i'r system nawdd cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf trwy Ddiwygio Lles sydd wedi effeithio ar grwpiau lleiafrifoedd yn enwedig megis dinasyddion yr AEE; gall un ymholiad gymryd sawl diwrnod a chynnwys cyswllt dwys â gweithwyr cefnogi cyn cael ei ddatrys<br>• Mae gwasanaeth y llinell gyngor wedi'i estyn i gynnwys cyngor e-bost. Efallai y bydd sawl e-bost rhwng cynghorwyr a gweithwyr cefnogi i ddatrys un ymholiad |
| Parhau â'r rhaglen fforymau anffurfiol i | O leiaf | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| staff yn ystod amser cinio i gynyddu ymwybyddiaeth staff o'r holl faterion cydraddoldeb | ddwywaith y flwyddyn | **Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Trefnwyd amserlen o sioeau teithiol (bob deufis) ar gyfer 2105/16 i alluogi'r holl staff i gael gwybodaeth am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), yr ymgynghoriadau ar bob adran a'r codau ymarfer drafft. Mae'r digwyddiadau hyn hefyd yn cynnwys cynlluniau Abertawe i'w rhoi ar waith erbyn mis Ebrill 2016, a byddant yn helpu i nodi bylchau a materion cydraddoldeb a all godi. |
| Ymchwilio i gyfleoedd i gysylltu â mentrau hyfforddi corfforaethol a chynllunio a datblygu hyfforddiant cydraddoldeb sy'n briodol i anghenion staff y Gwasanaethau Cymdeithasol. | Rhagfyr 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Uned Hyfforddiant Corfforaethol i fodloni blaenoriaethau strategol a nodi bylchau gwasanaeth a'r pwysau sydd arnynt. Rydym yn parhau i adlewyrchu'r holl agweddau ar yr agenda gydraddoldeb mewn cynlluniau hyfforddi sy'n benodol i'r gwasanaeth, ac yn yr holl gyrsiau y mae'r staff yn eu dilyn fel rhan o'u rôl gorfforaethol, eu rôl gofal cymdeithasol neu i fodloni rhwymedigaethau datblygiad proffesiynol parhaus.<br><br>Cafwyd enghraifft dda o ddatblygu ar y cyd ym maes diogelu corfforaethol. Mae cynyddu ymwybyddiaeth ac anghenion hyfforddi ehangach wedi'u nodi ochr yn ochr â pharatoi at adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau Abertawe. Ers yr adolygiad, mae Abertawe wedi rhoi pecynnau e-ddysgu gorfodol ar waith sy'n cynnwys Diogelu Oedolion a Diogelu ac Amddiffyn Plant Diamddiffyn.<br><br>Yn ogystal, gall staff gael mynediad i nifer o gyrsiau sy'n benodol i'r agenda gydraddoldeb, megis Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ac Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb trwy'r Gronfa Ddysgu. Hefyd, adlewyrchir 'cydraddoldeb' yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | yr holl weithgareddau priodol y mae staff yn ymgymryd â hwy, fel rhan o'u rhwymedigaethau DPP gofal cymdeithasol.<br>Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Sesiynau sefydlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n cynnwys cydraddoldeb a pholisi iaith Gymraeg y cyngor.<br>• Sesiwn sy'n benodol i rôl am yr elfennau cydraddoldeb a gynhwysir mewn hyfforddiant a ddarperir i staff gofal cymdeithasol newydd mewn staff gofal cartref mewnol ac i ofalwyr maeth<br>• Mae cydraddoldeb, gwerthoedd ac egwyddorion yn rhannau annatod o lawer o'r cyrsiau hyfforddiant parhaol, e.e. Diplomas FfCCh, Deddf Galluedd Meddyliol (MAC), Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS), Ailallugoi, Cynllunio Gofal. |
| Gwasanaethau Adeiladau ac Eiddo Corfforaethol (GAEC) | | |
| Briffio i reolwyr | Ebrill 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Gofynnir i bob dechreuwr yn y GAEC gwblhau hyfforddiant Gofal Cwsmeriaid a Chydraddoldebau. Bydd sesiwn drafod hefyd fel rhan o'n cwrs sefydlu adrannol. |
| Mae pob gweithiwr y GAEC yn cael hyfforddiant wedi'i ddiweddaru. | Mawrth 2013 | |
| Amgylchedd | | |
| Datblygu canllawiau i staff toiledau cyhoeddus i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion hunaniaeth rhywedd. | Yn cael ei adolygu bob chwe mis. | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Datblygwyd canllawiau syml yn 2013. |
| Diwylliant a Thwristiaeth | | |
| Sicrhau bod holl staff y Gwasanaethau Diwylliant a Thwristiaeth yn ymwybodol o bolisi bwydo ar y fron y cyngor. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau (2013)**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Lledaenwyd Cynllun Bwydo ar y Fron Llywodraeth Cymru i |

| | | |
|---|---|---|
| | | wasanaethau'r rheng flaen. Adroddodd yr holl gynrychiolwyr fod polisi'r cynllun wedi'i fabwysiadu. |
| Datblygu a chyflwyno arweiniad ar drawsrywedd ar gyfer yr holl Wasanaethau Diwylliant a Thwristiaeth. I fod yn berthnasol hefyd i staff gwirfoddol adeiladu cymunedol. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau (2013)**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cafodd dogfen Arweiniad Trawsrywedd ei llunio a'i defnyddio i wneud staff yn ymwybodol o'r angen i sicrhau ein bod yn cynnig gwasanaethau sensitif a hygyrch.<br><br>Mae'r arweiniad hefyd wedi'i drosglwyddo i awdurdod lleol arall i'w helpu i ddatblygu arweiniad tebyg. |
| Tai ac Adfywio Cymunedau | | |
| Parhau i hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru ymhlith staff yn y llyfryn sefydlu ar-lein a'r llawlyfr gwybodaeth gwasanaethau cwsmeriaid | Ebrill 2012 ac yn barhaus | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Parheir i ddiweddaru'r llyfryn sefydlu ar-lein a'r Llawlyfr Gwybodaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid â newidiadau perthnasol, e.e. rhestr o staff sy'n siarad Cymraeg, Safonau newydd y Gymraeg. |
| Parhau i ddarparu hyfforddiant cydraddoldeb i'r holl staff Tai a Diogelu'r Cyhoedd gan ei ddiweddaru a'i fonitro'n rheolaidd. | Ebrill 2012 ac yn barhaus, yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae staff yn parhau i fynd i gyrsiau hyfforddiant cydraddoldeb er mwyn diweddaru eu gwybodaeth am ddeddfwriaeth bresennol. Ar ben hynny, mae hyfforddiant cydraddoldeb wedi'i roi i denantiaid sy'n ymwneud â chyfranogiad.<br><br>Caiff cyrsiau cydraddoldeb (gan gynnwys e-ddysgu) eu hyrwyddo'n rheolaidd ar y taflenni gwybodaeth tîm, e.e. cwrs e-ddysgu Troseddau Casineb, cwrs IAP, cwrs e-ddysgu Cydraddoldeb. |

**Amcanion Cydraddoldeb – Adnoddau Dynol**

| Amcan Cydraddoldeb 3 | | |
|---|---|---|
| **Adolygu'r holl bolisïau AD, gan sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Adolygu polisïau AD trwy'r Gweithgor Undebau Llafur | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cwblhawyd yr adolygiad hwn yn 2013/14. |
| Llunio llawlyfr staff ar y we a fydd yn cynnwys polisïau AD, amodau a thelerau, a gwybodaeth i staff ynglŷn â'r Ddeddf Cydraddoldeb. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Lluniwyd a chyhoeddwyd y llawlyfr yn 2013-14. |
| Wedi hynny, adolygu polisïau AD yn flynyddol | Medi 2013 | **Wedi'i gwblhau:**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Bydd hyn yn parhau. |
| Briffio rheolwyr am bolisïau AD allweddol. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cwblhawyd y sesiynau briffio penodol hyn yn 2013. |

| Amcan Cydraddoldeb 4 | | |
|---|---|---|
| **Cyrraedd Lefel Aur Safon Iechyd Corfforaethol Llywodraeth Cymru** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Cyflwyno cais ar ran DASA am asesiad yn erbyn y Lefel Aur | Gorffennaf 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Ceir rhagor o adborth o'r asesiad ar y gwaith angenrheidiol ar gyfer haenau uwch. |
| Cyflwyno arolwg agwedd/lles gweithwyr. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mabwysiadwyd hyn yn adborth hyfforddiant yn 2015 ac mae'n parhau i fod yn arolwg parhaol. |

| | | |
|---|---|---|
| Adolygu'r polisi cyffuriau ac alcohol. | Gorffennaf 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cwblhawyd fel rhan o adolygiad polisi AD. |
| Mabwysiadu gwerthoedd craidd ar gyfer iechyd a lles gweithwyr. | Gorffennaf 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cyflawnwyd hyn yn 2014. |
| Llunio polisi gwerthu iach a sicrhau bod peiriannau bwyd iach yn y prif adeiladau. | Gorffennaf 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cyflawnwyd hyn yn 2013. |

| **Amcan Cydraddoldeb 5** | | |
|---|---|---|
| **Sicrhau bod cyfle gan bawb yn y gymuned i ymgeisio am swydd gyda'r cyngor** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Ennill achrediad y symbol anabledd (Cynllun Tic Dwbl) | Ebrill 2013 | **Ar droed:**<br>Yn lle hyn, mae'r cyngor wedi cofrestru ar gyfer y cynllun ‘Dinas sy'n Hyderus wrth Ymdrin ag Anabledd’. |

| **Amcan Cydraddoldeb 6** | | |
|---|---|---|
| **Creu system cyflog a graddio sy'n bodloni'r holl feini prawf cydraddoldeb a fydd yn ymdrin ag unrhyw wahaniaeth cyflog presennol rhwng y rhywiau ynghyd ag amodau a thelerau ariannol cyflogaeth tryloyw sydd wedi'u cydweddu** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Parhau i ymgynghori ag undebau llafur er mwyn datblygu system cyflog a graddio sy'n bodloni'r holl feini prawf cydraddoldeb. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cafodd hyn ei gyflawni (a'i roi ar waith) yn 2013-14. |
| Parhau i ymgynghori â'r undebau llafur i gydweddu a moderneiddio amodau a thelerau. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cafodd hyn ei gyflawni (a'i roi ar waith) yn 2013-14. |

| Amcan Cydraddoldeb 7 | | |
|---|---|---|
| **Cydymffurfio â'n dyletswydd i gyhoeddi Data Gweithlu/Gwybodaeth am Gyflogaeth** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Datblygu ein system ISIS AD i gofnodi manylion y nodweddion gwarchodedig. | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cyflawnwyd hyn yn 2013-14. |
| Cynnal arolwg staff i gasglu data am y nodweddion gwarchodedig a sgiliau iaith. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cynhaliwyd hyn yn 2012-13. |
| Cyhoeddi'r wybodaeth am gyflogaeth yn unol â'n dyletswydd. | Mawrth 2013 ac yn flynyddol | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Bydd hyn yn parhau'n unol â'r ddyletswydd ddeddfwriaethol. |
| Dadansoddi'r data uchod i nodi materion allweddol i'r awdurdod | Gorffennaf 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Bydd y gwaith hwn yn parhau. |

**Amcan Cydraddoldeb – Mynediad i Wasanaethau**

| Amcan Cydraddoldeb 8 | | |
|---|---|---|
| **Gwella mynediad i wasanaethau'r cyngor i bobl fyddar** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Nodi materion mynediad penodol i bobl fyddar yng Nghanolfan Gyswllt y cyngor. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cynhaliwyd peilot o Sign Translate yn y Ganolfan Gyswllt sy'n galluogi pobl sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain (IAP) yn iaith gyntaf i gael cyfieithiad uniongyrchol trwy ddolen fideo.<br>Er nad yw'r gwasanaeth hwn ar gael ar hyn o bryd, mae opsiynau eraill yn parhau i gael eu harchwilio gyda gwasanaeth negeseuon testun i'w lansio'n fuan. |

**Amcanion Cydraddoldeb – Addysg**

| **Amcan Cydraddoldeb 9** | | |
|---|---|---|
| **Gwella perfformiad dysgwyr lleiafrifoedd ethnig ar lefel TGAU** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn parhau i gyflawni o leiaf cystal â'u cyfoedion. | Dadansoddiad blynyddol o'r canlyniadau yn nhymor yr hydref. | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Lefel 2 yn gynhwysol yn 2015 oedd 72.1% i ddisgyblion Prydeinig nad oeddent yn wyn a 64.1% i ddisgyblion Prydeinig gwyn. |
| Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd Asiaidd/Bangladeshaidd yn cyflawni o leiaf cystal â'u cyfoedion. | Dadansoddiad blynyddol o'r canlyniadau yn nhymor yr hydref. | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Lefel 2 yn gynhwysol yn 2015 oedd 65.1% i ddisgyblion Bangladeshaidd a 64.1% i ddisgyblion Prydeinig gwyn. |

| **Amcan Cydraddoldeb 10** | | |
|---|---|---|
| **Cau'r bwlch perfformiad mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng bechgyn a merched** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Cynnal tueddiadau gwellhaol wrth asesu bechgyn a merched yn CA2 ac CA3 | Parhaus | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Canlyniadau bechgyn CA2 lan o 83.9 yn 2014 i 86.4 yn 2015; merched lan o 91.0 i 92.4 yn yr un cyfnod.<br><br>Canlyniadau bechgyn CA2 lan o 77.8 yn 2014 i 79.9 yn 2015; merched lan o 83.6 i 86.5 yn yr un cyfnod. |
| Cau'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched. | Parhaus | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Gwellhaodd bwlch rhwng y rhywiau CA2 -7.1% yn 2014 i -6.0% yn 2015.<br><br>Ehangodd bwlch rhwng y rhywiau CA3 -5.8% yn 2014 ychydig i -6.6% yn 2015. |

| **Amcan Cydraddoldeb 11** | | |
|---|---|---|
| **Gwella perfformiad addysgol plant Sipsiwn a Theithwyr** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Parhau i feddwl am ffyrdd o wella cyfraddau presenoldeb plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr mewn ysgolion uwchradd er mwyn gwella'u cyrhaeddiad. | Parhaus | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020** |

| **Amcan Cydraddoldeb 12** | | |
|---|---|---|
| **Gwella ymwybyddiaeth yr holl blant a phobl ifanc o wybodaeth allweddol am dueddfryd rhywiol a hunaniaeth rhyw.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Sicrhau y caiff ysgolion eu cyfeirio at arweiniad perthnasol gan Lywodraeth Cymru fel y gellir arfer hyn mewn ysgolion, er enghraifft, darpariaeth gwnsela ac arfer da o ran materion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT). | Parhaus - fel y caiff arweiniad ei roi | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Rydym yn parhau i hyrwyddo'r holl ddeunyddiau/wasanaethau perthnasol i ysgolion trwy ymgyrch bostio wythnosol |

| **Amcan Cydraddoldeb 13** | | |
|---|---|---|
| **Gwella mynediad disgyblion ag anabledd corfforol i addysg.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Parhau i wella isadeiledd mewn ysgolion | Parhaus | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020** |

| | | |
|---|---|---|
| er mwyn gwella mynediad. | | **Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae'r holl brosiectau a gyflwynir fel rhan o'n rhaglen Addysg o Safon 2020 a rhaglen genedlaethol ehangach Ysgolion yr 21ain Ganrif yn sicrhau gwelliant parhaol i'n hisadeiledd ysgolion. |
| Ymgyrchu dros ailosod y cyllid cyfalaf Addasiadau Mân i ddiwallu anghenion unigol plant a phobl ifanc anabl mewn ysgolion. | Parhaus | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Gwneir addasiadau mân mewn ysgolion yn ôl yr angen i sicrhau y diwellir anghenion unigol plant a phobl ifanc anabl mewn ysgolion. |

| **Amcan Cydraddoldeb 14** – Sylwer bod hwn yn Amcan Partneriaeth sydd eisoes wedi'i gynnwys yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc ac, felly, mae'r cynllun yn wahanol.<br>**Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yng nghanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tlodi, trwy wella canlyniadau'r tlotaf** | | |
|---|---|---|
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Lleihau'r anghydraddoldebau yng nghanlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant sy'n byw mewn tlodi, trwy wella canlyniadau'r tlotaf. | Parhaus – fel gyda phrosiectau a rhaglenni unigol. | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020 trwy amcanion penodol mewn perthynas â threchu tlodi a hawliau plant**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae enghreifftiau hyd yn hyn wedi cynnwys:<br>• Dechrau'n Deg<br>• Cyflwyno gwasanaethau (e.e. TAT a Magu Plant)<br>• Meddygfa a Chanolfan Deuluoedd Mayhill<br>• Gofal Plant a Chwarae<br>• Teuluoedd yn Gyntaf |

**Amcan Cydraddoldeb – Tai**

| **Amcan Cydraddoldeb 15** | | |
|---|---|---|
| **Gwella mynediad cwsmeriaid i'r Gwasanaethau Tai** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Cyrraedd Safon Rheoli Tai Cymru (SRhTC) | Awst 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Dyfarnwyd Safon Rheoli Tai Cymru i'r Gwasanaeth Tai ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ym mis Hydref 2013. |
| Datblygu Strategaeth Rhenti. | Rhagfyr 2015 | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020; mae'r cynnydd wedi'i ddatblygu a bydd y strategaeth yn cael ei chwblhau yn 16/17.** |
| Rhoi'r wefan cyngor tai newydd ar waith. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cyflawnwyd hyn yn 2013-14. |
| Rhoi'r gwasanaeth ceisiadau ffôn ar waith yn llwyr ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, Grantiau Digartrefedd a cheisiadau rhestr aros cwsmeriaid y mae'n well ganddynt/y mae angen iddynt gael mynediad i wasanaethau dros y ffôn. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cyflawnwyd hyn yn 2013-14. |
| Cynnwys materion BME yn y Strategaeth Tai Lleol newydd i sicrhau ymagwedd gyfannol. | Mehefin 2015 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cymeradwywyd y Strategaeth Tai Lleol (sy'n ymgorffori materion BME) gan y cyngor ym mis Hydref 2015. |
| Hyrwyddo darparu gwasanaeth Cymraeg mewn derbynfeydd cyhoeddus a thrwy'r cylchgrawn i denantiaid. | Ebrill 2012 gydag adroddiadau blynyddol am | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Darperir bathodynnau a chortynnau gwddf i staff sy'n siarad Cymraeg. Hyrwyddir gwasanaeth dwyieithog yn rheolaidd yn 'Tŷ |

| | | |
|---|---|---|
| | gynnydd | Agored', y cylchgrawn i denantiaid, ac fe'i hyrwyddir hefyd trwy arddangos deunyddiau hyrwyddo a dwyieithog yn y dderbynfa. |

**Amcan Cydraddoldeb – Adfywio Cymunedol**

| **Amcan Cydraddoldeb 16** | | |
|---|---|---|
| **Ymgymryd â gwaith partneriaeth ar yr agenda Cydlyniant Cymunedol** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Cyflwyno cynllun gwirfoddol ar gyfer Dinas Noddfa | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Ar droed:**<br>Mae'r cyngor wrthi'n diweddaru ei bolisi gwirfoddoli ac yn llunio cynllun gwirfoddoli staff mewn partneriaeth â Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe.<br>Mae'n ymrwymiad yng nghynllun gweithredu Strategaeth Trechu Tlodi a dylai'r cynllun gael ei lansio ym mis Medi 2016. |
| Rhoi Cynllun Gweithredu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol corfforaethol ar waith a'i fonitro. | Ebrill 2014 ac yn barhaus | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Erbyn hyn, y Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol yw Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a chanddo 7 canlyniad allweddol:<br>• Troseddau casineb<br>• Gwrthgaethwasiaeth/masnachu pobl<br>• Sipsiwn a theithwyr<br>• Mewnfudo<br>• Trechu tlodi<br>• Prif-ffrydio<br>• Monitro tensiynau<br><br>Byddwn yn llunio Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol penodol i Abertawe.  I gyflawni'r cynllun hwn, rydym wedi sefydlu model |

| | | |
|---|---|---|
| | | llywodraethu blaengar. Mae hyn oherwydd bod gan aelodau'r Cabinet ran ymarferol i'w chwarae wrth roi cyfeiriad strategol i gyflawni'r Cynllun Cyflawni Cydlyniant Cymunedol a'u bod yn gyfrifol am adrodd am eu cynnydd i'r cyfarfodydd perthnasol.<br><br>Bydd rhanddeiliaid allweddol hefyd yn cael eu nodi i adrodd ar weithredu camau gweithredu amrywiol yn y cynllun. |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o faterion Cydlyniant Cymunedol yn allanol ac yn fewnol | Ebrill 2013 ac yn barhaus | **Ar droed:**<br>Mae'r rhaglen wedi canolbwyntio ar brif-ffrydio Cydlyniant Cymunedol yn ystod y cam hwn. Dyma rai enghreifftiau:<br>• Mae Cydlyniant Cymunedol bellach wedi'i sefydlu yn adran 4 y broses Asesiad Effaith Cydraddoldeb.<br>• Mae aelodau'r Grŵp Arweinyddiaeth Cydlyniant Cymunedol yn hyrwyddo Cydlyniant Cymunedol. Yn ogystal, mae'r Hyrwyddwyr Cydraddoldeb wedi cytuno, mewn egwyddor, i gynnwys Cydlyniant Cymunedol yn eu cylch gorchwyl.<br>• Mae un o'r Hyrwyddwyr Cydlyniant Cymunedol yn arwain sefydlu Cydlyniant Cymunedol yn y rhaglen hyfforddiant Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chydraddoldeb gorfforaethol.<br>• Cyflwynwyd 13 sesiwn ymwybyddiaeth o droseddau casineb ar draws gwasanaethau amrywiol y cyngor a phartneriaid allweddol megis yr heddlu, y sector iechyd a'r trydydd sector. Daeth mwy na 180 o bobl i'r sesiynau hyn.<br>• Mae adnodd e-Ddysgu troseddau casineb i staff wedi'i ddatblygu.<br>• Mae Cydlyniant Cymunedol wedi'i sefydlu yn y Cynlluniau Cyflawni Clystyrau Cymunedau'n Gyntaf a'r Cynlluniau Cynnwys y Gymuned.<br>• Cyflwynwyd sesiynau Ymwybyddiaeth o Wrth-fasnachu Pobl i staff a sefydlwyd Fforwm Gwrth-fasnachu Pobl Amlasiantaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | Rhanbarthol;<br>• Trefnwyd sesiwn Dweud wrth MAMA (Mesur Ymosodiadau Gwrth-Fwslemaidd) i aelodau ifanc y cymunedau Mwslemaidd mewn partneriaeth â'r Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig (TCIE).<br>• Mae Bwrdd CONTEST Rhanbarthol wedi'i sefydlu sydd wedi cynyddu rhannu gwybodaeth a chudd-ymchwil ar draws y rhanbarth.<br>• Cyflwynwyd sesiynau hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid i staff DASA. |

**Amcan Cydraddoldeb – Diwylliant a Thwristiaeth**

| **Amcan Cydraddoldeb 17** | | |
|---|---|---|
| **Annog mwy o gyfranogiad mewn diwylliant, hamdden a chwaraeon a gwella mynediad i wasanaethau/gyfleusterau diwylliannol, hamdden a chwaraeon** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Lleoliadau diwylliannol a pharciau | | |
| Ehangu gwasanaeth addysg yr archifau ar draws Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.<br>Bydd gwasanaeth addysg yr archifau'n rhoi cyfle i ysgolion ymweld â'r Gwasanaeth Archifau neu drefnu sgyrsiau yn yr ysgolion sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Bydd gwasanaeth addysg yr archifau'n rhoi cyfle i ysgolion ymweld â'r Gwasanaeth Archifau neu drefnu sgyrsiau yn yr ysgolion sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm. |
| Datblygu prosiect mewn llyfrgelloedd i gyflwyno neu wella sgiliau cyfrifiadurol pobl dros 50 oed, a'i roi ar waith a'i hyrwyddo. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Er enghraifft, mae dosbarthiadau wedi'u cynnal yn llyfrgelloedd Brynhyfryd, Fforestfach, Tregŵyr, Cilâ, Llansamlet, Ystumllwynarth, |

| | | |
|---|---|---|
| | | Penlan, Pennard a Phontarddulais. |
| Sicrhau bod holl staff y llyfrgelloedd wedi'u hyfforddi/wedi mynd ar gyrsiau gloywi i ddefnyddio'r dolenni clyw | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cyflenwyd dolenni clyw newydd a mwy effeithiol i'r holl safleoedd gyda chyfarwyddiadau llawn i staff yn 2013. |
| Caffael cymhorthion cyfrifiadurol nam ar y golwg ychwanegol/gwell a'u rhoi ar waith mewn llyfrgelloedd. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Er enghraifft, gosodwyd sticeri bysellfwrdd gweledig uchel ar o leiaf un cyfrifiadur ym mhob safle er mwyn hwyluso defnydd (2013). |
| Trefnu amrywiaeth o sgyrsiau amgueddfa sy'n mynd â'r amgueddfa i bobl hŷn. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Oherwydd diffyg staff, nid yw'r amgueddfa'n mynd ati i hyrwyddo sgyrsiau allgymorth. Fodd bynnag, rydym yn mynd i ddigwyddiadau megis Rhwydwaith 50+. Mae'r grwpiau amrywiol hefyd yn rhwydweithio â'i gilydd ac yn trosglwyddo gwybodaeth y siaradwr. Mae'r Evening Post hefyd yn sôn am sgyrsiau yn y gymuned yn rheolaidd yn ei golofnau gwybodaeth gymunedol. Mae cysylltiadau eisoes wedi'u sefydlu gyda grwpiau penodol, gan gynnwys Canolfan Gofalwyr Abertawe a PABM<br><br>**Mynediad Cymunedol**<br>Rhoddir 3 neu 4 sgwrs y mis ar gyfartaledd gan Amgueddfa Abertawe. Mae oddeutu 95% a mwy'n bobl hŷn ac mae'r mwyafrif dros 70 oed. Y cyfartaledd ar gyfer pob sgwrs yw tua 25 o bobl.<br><br>Mae grwpiau cymunedol a dargedir yn cynnwys y rhai mewn unedau preswyl a grwpiau cefnogi dementia. |
| Annog mwy o bobl 14-18 oed i ymweld ag Oriel Gelf Glynn Vivian trwy greu | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:** |

| | | |
|---|---|---|
| grŵp ffocws pobl ifanc a phrosiect dysgu sydd yn yr arfaeth mewn cydweithrediad â Tate fel un o'r partneriaid rhanbarthol. | | Dewiswyd Oriel Gelf Glynn Vivian i fod yn rhan o gynllun ledled y DU, fel rhan o'r rhwydwaith Plus Tate i helpu pobl ifanc i gysylltu a rhyngweithio ag orielau celf mewn cyfres o raglenni, gweithdai, prosiectau a digwyddiadau. Rhoddwyd y dasg i holl bartneriaid Plus Tate sefydlu prosiect i gysylltu â phobl ifanc 14-21 oed.<br><br>Fe'n sbardunwyd gan hyn i sefydlu Prosiect Pobl Ifanc Glynn Vivian. Amcanion y prosiect oedd gweithio gyda phobl ifanc 14-19 oed i'w cynnwys yn rhaglen yr oriel a'r gymuned leol.<br><br>Yn ei hanfod, ein nod yw rhoi pobl ifanc wrth wraidd ein gwaith mewn ffordd newydd. Ein bwriad yw symbylu creadigedd a datblygu partneriaethau newydd rhwng yr oriel ac asiantaethau allweddol gan weithio gydag amrywiaeth eang o bobl ifanc o Abertawe a'r cylch, gan gynnwys awdurdodau lleol ac ymddiriedolaethau a gwasanaethau plant. Rydym yn cydnabod yr effaith y gall y celfyddydau ei chael ar fywydau pobl ifanc, gan eu helpu i fod yn aelodau iach, diogel, hapus a chadarnhaol o gymunedau bywiog a magu eu hyder, eu galluoedd a'u sgiliau. |
| Gwella'r wybodaeth ar y we am fynediad i barciau er mwyn rhoi gwybod ymlaen llaw i ddefnyddwyr posibl am y parciau sy'n hygyrch i bobl anabl a lleoliad y mynedfeydd. | Mawrth 2016 | **Ar droed:**<br>Mae cynnydd wedi'i wneud gyda'r diweddariadau gwefan yn nodi gwybodaeth am bob mynedfa i'r parc. Caiff rhagor o drafodaethau eu cynnal ar bosibilrwydd cynnwys ffotograffau o lethrau ym mhob parc a fydd o gymorth i ddefnyddwyr. |
| Adolygu'r opsiwn i ychwanegu gwybodaeth am fynediad ar arwyddion parciau a fyddai'n nodi'r llwybrau hygyrch. | Mawrth 2016 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Yn dilyn rhagor o ymchwilio i'r mater hwn, nid oes arweiniad clir ar y fath arwyddion ac nid ydynt ar gael. Felly, ni chaiff yr opsiwn hwn ei ddatblygu. Fodd bynnag, byddwn yn edrych ar ddichonoldeb |

| | | |
|---|---|---|
| | | cynnwys ffotograffau ar y wefan i ddangos y llethrau ym mhob parc. |
| Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden | | |
| Adolygu'r dichonoldeb a'r opsiynau i ehangu'r rhaglen weithgareddau i fenywod yn unig mewn canolfannau hamdden. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Er enghraifft:<br>• Yng Nghanolfan Hamdden Penlan, ychwanegwyd dosbarth nofio i fenywod yn unig yn 2012 i ateb y galw.<br>• Ym mis Mawrth 2013, ychwanegodd Canolfan Hamdden Penyrheol 'golff meddal' i fenywod, y tro cyntaf y cynigiwyd y gweithgaredd hwn yng Nghymru.<br>• Mae Bokwa wedi'i gyflwyno i ganolfannau hamdden Penlan, Llandeilo Ferwallt a Phenyrheol. Mae cyfranogwyr yn llunio llythrennau a rhifau â'u traed wrth berfformio ymarfer corff cardiofasgwlaidd gafaelgar sy'n rhoi llawer o egni.<br>• Mae Ioga Beichiogrwydd hefyd wedi'i lansio ym mhob safle.<br>• Mae Rhedeg i Fenywod wedi'i ailgyflwyno yn Nhreforys. |
| Datblygu cyfleoedd i bobl anabl gyfranogi, gwirfoddoli a hyfforddi ym maes chwaraeon a darparu cefnogaeth ar gyfer clybiau anabledd presennol. | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020 - Mae cynhwysiad yn elfen annatod o'r holl bolisïau a gweithdrefnau datblygu chwaraeon.** |
| Annog a chefnogi clybiau chwaraeon prif ffrwd i integreiddio pobl anabl trwy lwybrau'r Corff Llywodraethu Chwaraeon Cenedlaethol. | Mawrth 2013 ac yn parhau | |
| Adolygu'r opsiynau caeau chwaraeon i roi mwy o gyfleoedd ar gyfer pêl-droed | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:** |

| | | |
|---|---|---|
| bach. | | Rydym yn parhau i fonitro ac adolygu caeau bach lleol mewn partneriaeth â'r gynghrair. |
| Cynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon ar ôl ysgol (allgyrsiol) | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020 - Mae rhaglen Pobl Ifanc Actif (5x60 gynt) yn parhau.** |
| Cymryd camau i leihau'r bwlch rhwng y rhywiau ymhellach mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol trwy ddatblygu cyfleoedd Campau'r Ddraig a 5x60, ymgynghori â merched oed ysgol am y gweithgarwch corfforol y maent yn ei hoffi a gweithio gyda chlybiau chwaraeon i annog cyfranogiad ôl-16. | Mawrth 2013 ac yn parhau | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020 - Mae cynhwysiad yn elfen annatod o'r holl bolisïau a gweithdrefnau datblygu chwaraeon.** |
| Ym mhob lleoliad | | |
| Adolygu'r polisïau mynediad i ofalwyr ar draws yr Adran Diwylliant a Thwristiaeth er cysondeb a thegwch. Ar ôl ei gwblhau, sicrhau bod polisïau'n cael eu hyrwyddo i sicrhau ymwybyddiaeth. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cafodd ein cynllun Ac Un ei lansio'n llwyddiannus ar 29 Medi 2013. Fodd bynnag, mae hwn wedi'i ddisodli gan Gynllun HYNT Cymru gyfan, yr ydym wedi'i gyflwyno. |
| Hysbysu cwsmeriaid am ymrwymiad yr Adran Diwylliant a Thwristiaeth i bolisi'r cyngor ar gyfer bwydo ar y fron trwy sicrhau bod logo 'llaeth y fam' yn cael ei ychwanegu at dudalennau gwe a bod sticeri/posteri mewn cyfleusterau. | Medi 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae pob lleoliad wedi adrodd ei fod wedi ymrwymo i'r cynllun ac mae ein gwefannau'n hyrwyddo cydymffurfiad. |
| Adolygu darpariaeth y mannau newid cewynnau babanod ar draws gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Ar sail yr wybodaeth a gafwyd gan y lleoliadau a ymatebodd, mae gan ddwy ran o dair (19) ohonynt gyfleusterau newid cewynnau |

| | | |
|---|---|---|
| | | babanod, e.e. canolfannau hamdden, llyfrgelloedd. Mae'r traean o'r lleoliadau (10) sydd heb y rhain (h.y. llyfrgelloedd) yn rhy fach i'w darparu neu ni fuont ganddynt erioed. O'r 10 hyn, un lleoliad yn unig a gafodd sylwadau am y diffyg darpariaeth. O ystyried y pwysau ariannol sydd ar y cyngor, nid oes cynlluniau i'w gosod yn y dyfodol. |
| Cefnogi, targedu a darparu digwyddiadau, arddangosfeydd a gweithdai Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) ar draws gwasanaethau diwylliant a thwristiaeth. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cynnydd da wedi'i adrodd gydag amrywiaeth o weithgareddau, arddangosfeydd a digwyddiadau ar gyfer cymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) neu wedi'u dylunio i gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth megis Diwrnod Parti'r Byd, cynnal Gŵyl Ddawns Indiaidd yng Nghanolfan Hamdden Penyrheol, arddangosfeydd Mis Hanes Pobl Dduon yn y Llyfrgell Ganolog, gweithgareddau ac arddangosfeydd yn Amgueddfa Abertawe ynghylch ffoaduriaid/ceiswyr lloches a rhagor o sesiynau nofio i fenywod yn unig ym mhwll Pentrehafod. |
| Gwella cyfathrebu â sefydliadau BME am ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal fel bod cymunedau'n ymwybodol o'r gwasanaethau a'r cyfleoedd a ddarperir gan yr Adran Diwylliant a Thwristiaeth. | Mawrth 2016 | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016–2020 gyda ffocws cydraddoldeb ehangach ar gynyddu ymwybyddiaeth a nodi rhwystrau.** |
| Sicrhau bod gwasanaethau a digwyddiadau diwylliant a thwristiaeth yn ymwybodol o arferion diwylliannol/crefyddol a'u bod yn gwneud addasiadau rhesymol i ymateb i'r rhain, lle y bo modd. | Mawrth 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Er enghraifft:<br>Calendr gwyliau/digwyddiadau diwylliannol a chrefyddol wedi'i ddosbarthu fel y gall gwasanaethau nodi gwrthdrawiadau posibl.<br><br>Mae Pwll Cenedlaethol Cymru'n sensitif i'r materion sy'n gysylltiedig â Ramadan ac yn gohirio gwersi nofio gan y bydd y rhai sy'n dod yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymprydio a gallant fod yn rhy wan i gymryd rhan. Bydd y gwersi'n ailddechrau ar ôl Ramadan. |

**Amcanion Cydraddoldeb – Gwasanaethau Cymdeithasol**

| **Amcan Cydraddoldeb 18** | | |
|---|---|---|
| **Gwella mynediad i ddarpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol, gan sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth wrth wraidd yr holl weithgarwch cynllunio a chomisiynu** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Cynyddu nifer y bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol fel ffordd o sicrhau bod pobl ag anghenion gofal cymdeithasol cymwys yn gallu cael mynediad i wasanaethau sy'n addas ar gyfer eu hanghenion diwylliannol ac eraill. | Rhagfyr 2012 ac yn parhau | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae nifer y bobl sy'n derbyn taliadau uniongyrchol wedi parhau i gynyddu, gyda gwybodaeth yn cael ei chyfleu trwy grŵp ehangach o staff gan gynnwys gofal cartref a staff derbyn. |
| Adolygu'r cynlluniau comisiynu Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion ar draws pob grŵp cleientiaid: Pobl Hŷn, Anableddau Dysgu, Oedolion ag Anabledd Corfforol/Nam Synhwyraidd, Iechyd Meddwl a Gofalwyr. | Rhagfyr 2015 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae comisiynu'n parhau i fod yn broses ailadroddol gyfredol sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau newidiol y boblogaeth, ochr yn ochr â'r galw, y gwasanaethau sydd ar gael i nodi'r hyn sydd ei angen a'r adnoddau sydd ar gael. |
| Fel rhan o adolygu'r ffurflen Asesu Unedig, ymchwilio i gasglu gwybodaeth am ystod ehangach o nodweddion gwarchodedig. | Rhagfyr 2015 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae asesu unedig wedi'i ddiwygio'n unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).<br>Bydd y set ddata derfynol i'w chasglu gan yr asesiad unedig yn unol ag ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, y fframwaith canlyniadau cenedlaethol newydd a gofynion comisiynu'r dyfodol. |
| Parhau â'r Rhaglen Trawsnewid | Parhaus | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion er mwyn cyflwyno gwasanaethau mwy personol sydd wedi'u hanelu at ddinasyddion. | | **Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae cam nesaf Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion (TGCO) yn canolbwyntio ar roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar waith. |
| Cynnal rhannau Gwasanaethau Cymdeithasol gwefannau Bywydau Abertawe a Phobl Abertawe (ac ymchwilio i bosibilrwydd eu hestyn) i bobl ag anabledd dysgu. | Rhagfyr 2013 (adolygiad) | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cwblhawyd adolygiad a diweddariad yn 2013. |
| Cyflwyno gwefan hollgynhwysfawr i rieni a gofalwyr plant a phobl ifanc | Hydref 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cwblhawyd hyn yn 2013 |
| Cynnal asesiadau gofalwyr yn y Gwasanaeth Anabledd Plant | Rhagfyr 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae'r Tîm Anableddau Plant wedi cael ei hyfforddi a'i gefnogi'n llwyr i gynnal asesiadau arbenigol o ofalwyr |
| Datblygu Strategaeth Gofalwyr Ifanc | Ebrill 2014 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cwblhawyd hyn yn 2013:<br>http://www.abertawe.gov.uk/article/8398/Strategaeth-ar-gyfer-Gofalwyr-yn-Abertawe |
| Datblygu'r gwaith magu plant corfforaethol ymhellach trwy ddarparu hyfforddiant i aelodau etholedig | Mis Hydref bob blwyddyn | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Caiff hyfforddiant dynodedig ei gyflwyno'n rheolaidd i rieni corfforaethol ac mae cylch gorchwyl y bwrdd wedi'i ddiwygio. |
| Sefydlu proses drawsnewid amlasiantaeth rhwng gwasanaethau anableddau plant ac oedolion | Haf 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cwblhau Protocol Trawsnewid i gefnogi gwaith amlasiantaeth. Mae gwaith ychwanegol yn parhau i ystyried datblygu Tîm |

| | | |
|---|---|---|
| | | Trawsnewid ar y Cyd i gefnogi plant mewn angen wrth gyrraedd oedolaeth. |
| Cynnwys pobl ifanc mewn angen wrth gyflwyno'r cynlluniau comisiynu | Haf 2014 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae adborth am gyfranogiad plant sy'n derbyn gofal a phlant mewn angen bellach yn rhan ganolog o'r Uned Safon Gwasanaethau, a fydd mewn sefyllfa well i ymgysylltu â gwaith datblygu cynlluniau busnes a strategaeth gomisiynu gwasanaeth. |

| **Amcan Cydraddoldeb 19** | | |
|---|---|---|
| **Rhoi lefel uchel o wybodaeth am gam-drin yn y cartref a'r gwasanaethau cefnogi sydd ar gael** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Agor gwasanaeth gwybodaeth a chyngor 'siop dan yr unto' yng nghanol dinas Abertawe. Bydd hyn yn rhoi cefnogaeth ac adnoddau yn y man a'r lle i fenywod, dynion a phlant sy'n dioddef cam-drin yn y cartref. | Rhagfyr 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cyfeiriwch yn ôl at adran 5.12 yr adroddiad naratif am ragor o fanylion |
| Trefnu digwyddiadau i gynyddu ymwybyddiaeth gan gynnwys Diwrnod y Rhuban Gwyn (Diwrnod Diddymu Trais yn erbyn Menywod) a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Dyma ddau o'r digwyddiadau pennaf yng nghalendr y Fforwm Cam-drin yn y Cartref lle mae'r wybodaeth a roddir yn canolbwyntio ar wasanaethau un rhyw (menywod yn unig). | Ebrill 2013 ac yn barhaus | |
| Mynd i ddigwyddiadau eraill megis | Ebrill 2013 ac | |

| | | |
|---|---|---|
| Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd i gynyddu ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â cham-drin yn y cartref. | yn barhaus | |
| Sefydlu gwasanaeth cam-drin yn y cartref penodol yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd mewn partneriaeth â PEI a'r Grŵp Strategaeth Trais yn y Cartref. | Rhagfyr 2013 | |

**Amcan Cydraddoldeb – Budd-daliadau**

| **Amcan Cydraddoldeb 20** | | |
|---|---|---|
| **Bydd y Tîm Hawlio Budd-daliadau'n cynyddu nifer y rhai sy'n derbyn budd-dal treth y cyngor 1.5% o lwyth achosion budd-dal treth y cyngor erbyn 31 Mawrth 2013 (o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol)** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Cynllunio a chynnal amrywiaeth o weithgareddau a mentrau i gyflawni'r targed, fel a bennwyd yn ein Strategaeth Hawlio | Mawrth 2013 ac yn barhaus yn flynyddol | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae'r tîm yn parhau i weithio'n galed i gynyddu ymwybyddiaeth a chefnogi preswylwyr i hawlio Gostyngiad Treth y Cyngor (a ddisodlodd Fudd-dal Treth y Cyngor) gan gymryd cyfeiriadau, e.e. gan Dîm Treth y Cyngor a'r Adran Tai, yn ogystal â galwadau uniongyrchol gan drethdalwyr. Er enghraifft, ar gyfer 2014/2015, yn sgîl gwaith y tîm, bu cynnydd 801 yn nifer y rhai a oedd yn derbyn Gostyngiad Treth y Cyngor a bu cynnydd 592 yn nifer y rhai a oedd yn derbyn Budd-dal Tai.<br><br>Mae ffocws y tîm wedi newid ers 2013/14 i ddarparu cyngor a chefnogaeth i breswylwyr ar amrywiaeth o newidiadau diwygio lles, yn enwedig o ran y cymhorthdal ystafell sbâr, y cyfeirir ati'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyffredinol fel y “Dreth Ystafell Wely" a'r Terfyn Budd-daliadau.<br><br>Mae'r Tîm Hawlio'n chwarae rhan sylweddol wrth gynorthwyo tenantiaid i hawlio Taliadau Tai Dewisol a dod o hyd i atebion tymor hwy i liniaru effaith y “Dreth Ystafell Wely” megis dod o hyd i waith a symud i lety llai. Mae'r tîm hefyd yn gyfrifol am weinyddu Prydau Ysgol am Ddim ac mae'n gwneud gwaith i gynyddu hawl i PYDd i'r eithaf trwy weithio gydag ysgolion a rhieni a chydweddu data â chofnodion budd-daliadau. Mae'r tîm hefyd wedi canolbwyntio ar gynorthwyo cwsmeriaid trwy roi gwybodaeth/cyngor ar amrywiaeth o grantiau/gostyngiadau/cymorth ariannol sydd ar gael i helpu i liniaru effeithiau'r newidiadau diwygio lles a lliniaru tlodi. |

**Amcanion Cydraddoldeb - Yr Amgylchedd a Diogelwch**

| **Amcan Cydraddoldeb 21** | | |
|---|---|---|
| **Gwella mynediad i balmentydd, ffyrdd a darpariaeth barcio er mwyn darparu mynediad gwell i bobl anabl a hŷn, yn ogystal â theuluoedd â phlant ifanc** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Rhoi'r Polisi Palmentydd i Bobl ar waith | Ebrill 2013 ac yn barhaus | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020** |
| Gosod cyrbau isel i hwyluso mynediad lle y bo angen | Parhaus | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020:**<br>Gosod cyrbau isel fesul achos. |
| Darparu croesfan i gerddwyr â chyfleusterau i bobl anabl. | 95% erbyn Ebrill 2012 | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020** |
| Ystyried materion cydraddoldeb wrth lunio cynlluniau priffyrdd a thraffig. | Cynnwys y rhain wrth lunio pob prosiect. | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020:**<br>Mae gwella ymgynghori â grwpiau anabl wedi'i dargedu trwy gyflwyno cam newydd yn y broses datblygu dyluniadau. Mae'r fformat yn dilyn y protocol Palmentydd i Bobl a ddefnyddir fel y safon |

| | | |
|---|---|---|
| | | ar draws yr awdurdod.<br>Caiff prosiectau eu hasesu'n ffurfiol gan ddefnyddio'r broses Asesu Effaith Cydraddoldeb, gan ddarparu o ganlyniad fwy o barhad rhwng cynlluniau, cofnod manwl o fesurau a roddir ar waith ac ystyriaeth briodol o'r grwpiau perthnasol.<br>Caiff gweithdai ôl-gwblhau eu cyflwyno ar brosiectau perthnasol i wahodd sylwadau gan randdeiliaid allweddol i ddarparu gwelliannau parhaus |
| Darparu hawlenni i sefydliadau gofal a gofalwyr cymwys barcio mewn safleoedd parcio preswylwyr. | Parhaus | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020** |

| **Amcan Cydraddoldeb 22** | | |
|---|---|---|
| **Cludiant: Gwella mynediad i fysus cyhoeddus i bobl anabl, pobl hŷn a theuluoedd â phlant ifanc** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Lansio system REACT yr RNIB yn yr orsaf fysus ganolog i bobl â nam ar y golwg.<br>Cynnig, yn gyfnewid am flaendal ad-daladwy, ffobiau sy'n galluogi anfon negeseuon at ddefnyddwyr bws dall a'r rhai â nam ar y golwg.<br>Darparu cyfarwyddiadau defnydd dwyieithog mewn braille, ar CD sain ac mewn print bras.<br>Mae'r system yn rhoi negeseuon sain am y gwasanaethau a geir ym mhob bae gadael ac mae'n offeryn dod o hyd i'r ffordd ar y cyd â'r stribed cyffyrddol a | Hydref 2011 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Rhoddwyd hyn ar waith yn 2011 ac mae hefyd yn gweithredu ar gerbydau ftrMetro ac mewn safleoedd Metro allweddol. Ar y cyd â hyn, yn 2012, datblygwyd mapiau cyffyrddol a phrint mawr o'r orsaf fysus a'r orsaf drenau gyda'r RNIB a'r Sefydliad Cŵn Tywys y Deillion a chânt eu dosbarthu yn y ddau gyfleuster. Mae mapiau braille o'r orsaf fysus a'r orsaf drenau hefyd wedi'u llunio. |

| | | |
|---|---|---|
| geir trwy neuadd yr orsaf. | | |
| Datblygu rhaglen i ddarparu cyrbau uchel mewn safleoedd bws i hwyluso mynediad i deithwyr â phroblemau symudedd. Cwrdd â grwpiau anabledd i geisio barn am flaenoriaethu.<br>Mae deddfwriaeth mewn grym sy'n ei gwneud yn ofynnol i fysus fod yn hygyrch erbyn 2015. Bydd hyn yn cynyddu'r angen i'r cyngor ddarparu cyrbau uchel. | Rhaglen ar waith erbyn 2015 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Yn dilyn ymgynghoriad â Mynediad i Bawb Abertawe (SAFE), datblygwyd rhaglen ac, i ddechrau, gosodwyd cyrbau uchel mewn safleoedd bws allweddol ledled y sir. Darparwyd cyrbau uchel hefyd ar hyd coridorau'r prif wasanaeth bws, gan gynnwys Heol Caerfyrddin, Heol y Mwmbwls a Heol Gŵyr. Yn y dyfodol, gosodir cyrbau uchel lle darperir llochesi bws newydd. |

| **Amcan Cydraddoldeb 23** | | |
|---|---|---|
| **Gwella darpariaeth diogelwch cymunedol – a chanfyddiadau o fod yn ddiogel – ar draws cymunedau Abertawe** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Darparu teledu cylch cyfyng sefydlog a symudol | Parhaol | **Ar droed:**<br>Erbyn hyn, mae system teledu cylch cyfyng gynhwysfawr sy'n goruchwylio canol y ddinas a mannau allweddol eraill sydd o fudd i'r gymuned yn gyffredinol.<br>Mae adolygiad wedi'i gwblhau ac mae nifer y camerâu wedi'i leihau, gan sicrhau bod y rhai sy'n parhau (64) yn addas ac mewn lleoliadau priodol, gan sicrhau cydymffurfio â gofynion y Comisiynydd Gwybodaeth.<br>Yn dilyn dadansoddiad manwl ac ymgynghori â'r heddlu, caiff camerâu teledu cylch cyfyng newydd eu gosod yn Lôn Northampton ac yn y Strand ym mis Medi 2016.<br>Mae adolygiad comisiynu o'r gwasanaeth teledu cylch cyfyng yn cael ei gynnal ar hyn o bryd, sy'n cynnwys ymgysylltu manwl â rhanddeiliaid perthnasol, a chaiff ei gwblhau a'i roi ar waith erbyn mis Medi 2016. |

| | | |
|---|---|---|
| Rhoi cyngor atal troseddu | | Rhoddir cyngor atal troseddau gan staff cymwysedig a phrofiadol pryd bynnag y gwneir cais amdano, oddeutu 20 arolwg y flwyddyn. Eir ati i hyrwyddo egwyddorion “Diogelu drwy Ddylunio”. |
| Cyfathrebu cadarnhaol a thawelu meddyliau<br>Cynnwys y gymuned gan swyddogion | | Mae nifer mawr o weithgareddau cynnwys y gymuned wedi'u cynnal ar draws yr ardal, gan ddefnyddio lleoliadau sefydlog a cherbydau. Mae mentrau'n cynnwys ymweliadau/sgyrsiau grwpiau cymunedol, mynd i ddigwyddiadau ac ymarferion “curo ar ddrysau” yn y gymdogaeth i leihau ofn a rhoi hwb i hyder a hunangymorth. Cyfanswm y rhain yw oddeutu 84 y flwyddyn.<br><br>Mae “Man Help” Economi Nos<br>a “Pharth Gollwng” wedi'u hehangu a'u prif-ffrydio yn 2016.<br>Mae rôl y llysgennad nos wedi'i threialu'n llwyddiannus a'i throsglwyddo i BID barhau â hi yn 2016/17.<br>Mae Dyfarniad Gwobr Borffor ATCM wedi'i gadw am yr ail flwyddyn yn 2016.<br>Cynhaliwyd ymgyrch lwyddiannus i hyrwyddo cymryd rhan yn yr economi nos ym mis Medi 2016, a chaiff ei hehangu ymhellach i hyrwyddo arallgyfeirio yn yr economi nos ym mis Medi 2016.<br>Cynhelir cyfathrebu cadarnhaol yn y cyfryngau i hybu hyder y cyhoedd a lleihau ofn troseddu. |
| Swyddog Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | | Mae lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau i fod yn flaenoriaeth Abertawe Mwy Diogel. Cyflogir dau aelod o staff rhan-amser yn swyddfa'r bartneriaeth yng Ngorsaf Heddlu Castell-nedd. Caiff ffigurau rheoli misol eu cynhyrchu a'u darparu i aelodau ward. |

| Amcan Cydraddoldeb 24 – diwygiwyd ar gyfer 2013 | | |
|---|---|---|
| **Llunio Strategaeth Troseddau Casineb ar draws y cyngor mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Cydgysylltu â grwpiau anableddau lleol i gofnodi eu profiadau o gasineb ac aflonyddu a chynnwys yr wybodaeth a gasglwyd mewn adroddiad. | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cwblhawyd yr adroddiad ym mis Ebrill 2013 ar ôl cyfres o gyfweliadau/sgyrsiau ffôn â gwirfoddolwyr a ymatebodd i bosteri a thaflenni a osodwyd mewn adeiladau cyhoeddus |
| Cynnwys manylion yr ymgyrch a gwybodaeth am ddulliau adrodd ar wefannau Heddlu De Cymru a DASA. | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Manylion ar gael yn http://www.abertawe.gov.uk/troseddcasineb (Gan y cwblhawyd yr ymgyrch hon yn 2013, mae'r wybodaeth ar-lein wedi'i diweddaru oherwydd newidiadau mewn gweithdrefnau adrodd) |
| Cynnal o leiaf 4 sesiwn cynyddu ymwybyddiaeth gyda grwpiau cymunedol yn ystod blwyddyn gyntaf yr ymgyrch. | Ebrill 2013 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Yn ystod cam datblygu'r adroddiad, aeth aelodau'r Tîm Mynediad i Wasanaethau a/neu Heddlu De Cymru i ddigwyddiadau lleol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ac annog cyfranogwyr posibl y dyfodol i gamu ymlaen. Roedd y rhain yn cynnwys Diwrnod Agored Fforwm Anabledd Abertawe (Mai 2012), Ffair Iechyd Anabledd Pobl yn Gyntaf Abertawe (Mehefin 2012), cyfarfod blynyddol Rhwydwaith 50+ Abertawe (Tachwedd 2012) a Chlwb Pobl Fyddar Abertawe (Ionawr 2012). |
| Drafftio Strategaeth Troseddau Casineb | Ebrill 2015 | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020** |

| Amcanion cydraddoldeb 25 | | |
|---|---|---|
| **Gweithio mewn partneriaeth yn lleol ar fentrau hybu iechyd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i'r holl gymunedau** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Pennu cylch gorchwyl y Grŵp | Ionawr 2012 | **Wedi'i gwblhau** |

| | | |
|---|---|---|
| Gweithredu Tybaco | | **Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cytunwyd ar y cylch gorchwyl ac fe'i mabwysiadwyd ym mis Ebrill 2012 |
| Llunio Cynllun Gweithredu Tybaco ar gyfer Abertawe a fydd yn canolbwyntio ar ardaloedd a nodwyd mewn asesiadau anghenion lleol ac ymarferion mapio. | Cynllun wedi'i ddatblygu erbyn mis Mehefin 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cyflwynwyd cynllun newydd ar gyfer 2014 - 2017 i'r Bwrdd Dinas Iach yn nghyfarfod mis Ionawr a chafodd ei gymeradwyo. |
| Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n teithio i'r ysgol ac oddi yno trwy feicio neu gerdded yn ardaloedd y prosiect Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau. | I'w bennu pan fydd swm yr arian yn hysbys ar gyfer 2012/13 | **Ar droed ac wedi'i gynnwys yn CCS 2016-2020**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Caiff cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau ei gyflwyno bob blwyddyn. Caiff ysgolion eu hannog i gynyddu nifer y plant sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol. |

| **Amcan Cydraddoldeb 26** | | |
|---|---|---|
| **Gwella prosesau a gweithdrefnau mewnol gwasanaethau sy'n ymwneud ag amgylchedd Abertawe i sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys, yn ogystal ag arwain at ganlyniadau wedi'u seilio ar yr wybodaeth berthnasol** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Rheoli Adeiladau | | |
| Parhau ag arolygon ymgynghori â chwsmeriaid gan gynnwys holl ddefnyddwyr y gwasanaeth. | Cyflwyno arolwg parhaus ar ôl cwblhau'r prosiect. | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Arolwg yn parhau. |
| Gwirio pob lefel o effaith ar grwpiau cymdeithas gwahanol, gan gynnwys unrhyw lefel andwyol o orfodi. | Bob 6 mis | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Canlyniadau wedi'u dadansoddi. Dim tystiolaeth i awgrymu unrhyw effaith andwyol neu lefelau gorfodi mewn unrhyw grŵp. |
| Dadansoddi data cwynion/sylwadau | Yn barhaus ar ôl ei dderbyn | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:** |

| | | |
|---|---|---|
| | | Caiff yr holl ganlyniadau eu dadansoddi'n unigol. Ymateb neu weithredu lle y bo angen. |
| Cyhoeddi'r canlyniadau. | Ebrill 2012 ac yn barhaus (yn flynyddol) | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Wedi'u cyhoeddi ar-lein. |
| Caiff yr holl wybodaeth, ffurflenni, taflenni etc. eu darparu mewn unrhyw iaith/fformat ar gais. | Ar gael yn ôl y galw. | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Ni wnaed ceisiadau hyd yn hyn. |
| Hysbysebu Gwasanaeth Cyfieithu a Dehongli Cymru (GCDC)/darparu cyfieithydd ar y pryd yn ôl yr angen. | Ar gael yn ôl y galw. | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Ni wnaed ceisiadau hyd yn hyn. |
| Claddedigaethau ac Amlosgiadau | | |
| Darparu trefniadau claddu/amlosgi yn unol â gofynion grwpiau ethnig a chrefyddol/chred yn Abertawe | Parhaus | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Caiff man gwylio ei gynnwys yn y gwaith i adnewyddu amlosgfeydd i alluogi'r arfer Sikhaidd o wylio'r arch yn cael ei rhoi yn yr amlosgwr. Mae gwasanaeth wedi'i gyflwyno i grwpiau newydd ar gyfer claddedigaethau'n unol â'u credoau/traddodiadau, e.e. Ffydd Mandeaidd a Bahaiaidd. |
| Rheoli Gwastraff | | |
| Casgliadau gwastraff â chymorth i bobl anabl a hŷn. | Adolygu'n fisol. | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Darperir y gwasanaeth o hyd i'r holl breswylwyr y mae angen cymorth arnynt â'u bagiau o eitemau gwastraff. |

**Amcan Cydraddoldeb – Gwasanaethau Adeiladu ac Eiddo Corfforaethol (GAEC)**

| |
|---|
| **Amcan Cydraddoldeb 27** |
| **Sicrhau recriwtio gweithlu amrywiol yn y GAEC** |

| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
|---|---|---|
| Recriwtio – Sicrhau bod yr holl waith recriwtio yn y dyfodol yn y GAEC yn parhau i gael ei wneud yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan roi sylw penodol i'r rhaglen recriwtio prentisiaid. Datblygu cysylltiadau ymhellach â grwpiau/sefydliadau allanol i alluogi ymwybyddiaeth ehangach o'r fenter a chefnogi'r GAEC. Bydd parhad y rhaglen recriwtio prentisiaid yn dibynnu ar gymeradwyaeth gyllidebol yn y dyfodol. | Mawrth 2013 ac yn barhaus yn flynyddol | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Dechreuodd gwaith recriwtio prentisiaid GAEC ar gyfer 2015 ym mis Mawrth. Fel arfer, hysbysebwyd y cyfleoedd yn y wasg leol, y ganolfan gwaith ac ar wefan Gyrfa Cymru. Buom yn gweithio hefyd gyda'r Ymddiriedolaeth Ieuenctid Adeiladu gan gwrdd ag ymgeiswyr posibl trwy'r gweithdai adeiladu. Buom yn gweithio gyda'r mentrau Y Tu Hwnt i Frics a Morter a Gweithffyrdd. |

**Amcan Cydraddoldeb – Caffael**

| **Amcan Cydraddoldeb 28** | | |
|---|---|---|
| **Cydymffurfio â'r rheoliad caffael a bennwyd yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru)** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau, byddwn yn:<br>• ystyried a fyddai'n briodol i'r meini prawf ar gyfer dyfarnu'r contract hwnnw gynnwys ystyriaethau sy'n helpu i gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol;<br>• ystyried a fyddai'n briodol i nodi amodau sy'n ymwneud ag ymgymryd â'r contract i helpu i | Ebrill 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae'n rhaid i holl weithgarwch caffael y cyngor roi sylw dyledus i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r holl weithgarwch caffael â budd trawsffiniol posibl gydymffurfio ag egwyddorion Cytundeb y Comisiwn Ewropeaidd sy'n sicrhau tegwch a thryloywder.<br><br>Mae isafswm meini prawf ar gyfer cydraddoldeb [yn benodol unrhyw dor] yn ofynnol ar gyfer pob contract caffael yn y cam cyn- |

| | | |
|---|---|---|
| gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol. | | gymhwyso. Mae'n ofynnol i bawb sy'n cyflwyno tendr ddatgelu achosion o fynd yn groes i ddeddfwriaeth gydraddoldeb a chael y cyfle i ddangos tystiolaeth o hunanlanhau. |

**Amcanion Cydraddoldeb – Cyfathrebu, Marchnata, Trosolwg a Chraffu**

| **Amcan Cydraddoldeb 29** | | |
|---|---|---|
| **Ymchwilio i addasiadau posibl i ddyfeisiau amlswyddogaeth (llungopiwyr) mewn gwasanaethau uniongyrchol i'r cyhoedd megis llyfrgelloedd, ysgolion a swyddfeydd mewnol. Gallai addasiadau gynnwys gostwng y paneli rheoli i helpu pobl sy'n defnyddio cadair olwyn wrth lungopïo, sganio a chasglu dogfennau.** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Ymchwilio i addasiadau gan gyflenwyr | Mehefin 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Nodwyd yr opsiynau trwy ymchwil gychwynnol a dyfarnwyd y tendr i Konica Minolta ym mis Mawrth 2013 |
| Ymgynghori â defnyddwyr dyfeisiau amlswyddogaeth o ran anghenion | Mehefin 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ag ysgolion, rheolwyr ysgolion a llyfrgelloedd ynglŷn â'r contract Dyfeisiau Amlswyddogaeth newydd. |
| Llunio tendr dyfeisiau amlswyddogaeth i gynnwys costau ac argaeledd addasiadau ar gyfer mynediad. | Gorffennaf 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae gan bob dyfais amlswyddogaeth newydd sgrîn troi i lawr (panel rheoli) sy'n galluogi mynediad i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn. |
| Ar y cyd â chwsmeriaid dyfeisiau amlswyddogaeth, nodi a gosod dyfeisiau amlswyddogaeth o ran anghenion mynediad. | Yn barhaus o fis Mawrth 2013. | **Ar waith:**<br>Gosod dyfeisiau amlswyddogaeth o fis Mehefin 2013 ag offer rheoli isel a sgriniau troi lan/i lawr i alluogi mynediad i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.<br>Bydd dyfeisiau amlswyddogaeth yn Nhreforys a Llyfrgell Ganolog |

| | | |
|---|---|---|
| | | Abertawe'n cael eu newid ym mis Mai 2016. Gohirio newid dyfeisiau amlswyddogaeth llyfrgelloedd nes i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd benderfynu ar ateb cyfarpar a meddalwedd. Bydd contract dyfeisiau amlswyddogaeth newydd ar gyfer mis Mawrth 2017 yn cynnwys cael gwared ar hen gyfarpar oherwydd terfynu contract. |

| **Amcan Cydraddoldeb 30** | | |
|---|---|---|
| **Gweithredu'n briodol i sicrhau bod Arwain Abertawe'n briodol hygyrch i bobl â nam ar y golwg** | | |
| Camau cysylltiedig | Dyddiad cau | Cynnydd 2016 |
| Adolygu'r ddarpariaeth bresennol i bobl â nam ar y golwg | Mehefin 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae gwasanaeth 'tapiau llafar' wedi bod ar waith ers lansio Arwain Abertawe. Roedd y cwsmeriaid yn dewis tapiau casét eu hunain ac yn eu cael yn fuan ar ôl cyhoeddi'r cylchgrawn.<br>Gallai maint fersiwn ar-lein Arwain Abertawe gael ei gynyddu 500% i gynorthwyo hygyrchedd. |
| Ymchwilio i sut mae awdurdodau lleol eraill yn darparu gwasanaethau i bobl â nam ar y golwg o ran eu papur bro. | Mehefin 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Anfonwyd e-bost crwn at yr 21 o awdurdodau lleol eraill i ofyn y cwestiwn hwn. Cafwyd saith ymateb.<br><br>O'r ymatebion, nid oedd ymagwedd gyffredin at ddarpariaeth. Mae'n ymddangos bod y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno mewn ymateb i'r hyn sy'n boblogaidd yn lleol. |
| Ymchwilio i farn sefydliadau lleol perthnasol | Gorffennaf 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Mae Nam ar y Golwg Gorllewin Morgannwg wedi argymell y dylai'r cyngor ddarparu Arwain Abertawe heb y lluniau mewn dogfennau Word gan ddefnyddio ffont Arial pwynt 14. |

| | | |
|---|---|---|
| Adolygu goblygiadau adnoddau'r adroddiad a llunio cynllun gweithredu. | Hydref 2012 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Cafodd hyn ei adolygu ym mis Chwefror 2014. |
| Cymeradwyo'r cynllun gweithredu | Rhagfyr 2012 ac yn parhau | **Wedi'i gwblhau**<br>Cafodd hyn ei gyflawni ym mis Chwefror 2014. |
| Rhoi cynllun gweithredu ar waith, gan gynnal adolygiadau blynyddol a gwneud diwygiadau lle y bo'n briodol. | O fis Ebrill 2014 | **Wedi'i gwblhau**<br>**Gwybodaeth ychwanegol:**<br>Yn dilyn adolygiad blynyddol yn 2015, mae'r gwasanaeth tapiau llafar wedi'i derfynu oherwydd diffyg derbyniad. Cafodd tapiau dau ddefnyddiwr a oedd ar ôl eu dychwelyd heb eu defnyddio yn y cyfnod 2014-15. Mae Arwain Abertawe'n parhau i hysbysebu bod fformatiau eraill ar gael ar gais. Mae fformat arall y gellir ei ddarllen trwy ddefnyddio meddalwedd gair i lais ar gael ar wefan y cyngor. |

## Atodiad 2

# Gwybodaeth Cyflogaeth a Hyfforddiant

Lle gallai'r gwerthoedd isod alluogi adnabod aelodau unigol o staff, mae'r ffigurau wedi cael eu disodli â *.

| **Swyddi** | **Nifer y bobl a gyflogwyd gan yr awdurdod ar 7 Gorffennaf 2016** | | **Ymadawiadau (Ebrill 15 - Mawrth 16)** |
|---|---|---|---|
| **Oed** | **11015** | | **1157** |
| 16-24 | 488 | 16-24 | 140 |
| 25-39 | 3319 | 25-39 | 353 |
| 35-44 | 2855 | 35-44 | 189 |
| 40-49 | 3315 | 40-49 | 178 |
| 50-59 | 3064 | 50-59 | 276 |
| 60+ | 829 | 60+ | 210 |
| 55-59 | 1365 | 55-59 | 179 |

| **Rhyw** | **11015** |
|---|---|
| Gwryw | 3378 |
| Benyw | 7637 |

| **Anabledd** | **11015** |
|---|---|
| Anabl | 63 |
| Ddim yn anabl/Dewis peidio â dweud/Anhysbys | 10952 |

**Canran y gweithwyr, gan gynnwys athrawon a staff ysgolion, sy'n gadael cyflogaeth yr awdurdod lleol, yn wirfoddol neu'n anwirfoddol (Rhif DP CHR/001)**

| **Trosiant/Nifer y Rhai sy'n Gadael** | |
|---|---|
| Nifer y rhai sy'n gadael **(Ebrill 15 – Mawrth 16)** (Cyfrif pennau) | 1157 |
| Nifer y staff (Cyfrif pennau) **(Gorffennaf 16)** | 11015 |
| Canran | 10% |

**Ethnigrwydd**

| **Grŵp Ethnig** | **11015** |
|---|---|
| Gwyn - Prydeinig | 1558 |
| Gwyn - Unrhyw un arall | 58 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig – gan gynnwys | 13 |

| | |
|---|---|
| Bangladeshaidd, Tsieineaidd, Indiaidd, Pacistanaidd neu unrhyw un arall | |
| Du neu Ddu Prydeinig – gan gynnwys Affricanaidd, Caribïaidd neu unrhyw un arall | 10 |
| Cymysg | * |
| Grŵp ethnig arall | * |
| Dewis peidio â dweud | 9367 |
| **Cyfanswm** | **11015** |

**Crefydd**

| **Crefydd neu gred** | **11015** |
|---|---|
| Dim crefydd | 547 |
| Cristnogaeth (pob enwad) | 857 |
| Unrhyw grefydd arall (gan gynnwys Bwdaeth, Iddewiaeth ac Islam) | 69 |
| Dewis peidio â dweud/Anhysbys | 9542 |

**Gwybodaeth am hyfforddiant a gasglwyd 2015 – 16**

Mae'r system a ddefnyddir i gasglu data hyfforddiant yn parhau i gael ei diweddaru i gasglu mwy o wybodaeth fanwl. Fodd bynnag, nid yw'r data cydraddoldeb yn gyflawn oherwydd y ffaith nad yw'n ofynnol i staff roi'r wybodaeth hon.  Mae gwaith yn parhau i gynyddu adrodd.

**Yn ôl rhyw:**

| | |
|---|---|
| Gwryw | 1693 |
| Benyw | 1803 |
| Heb ei nodi | 0 |

**Yn ôl oedran:**

| | |
|---|---|
| 24 ac iau | 149 |
| 25 – 39 | 900 |
| 40 – 49 | 1018 |
| 50 – 59 | 1092 |
| 60+ | 337 |
| Heb ei nodi | 0 |

**Yn ôl cenedligrwydd:**

| | |
|---|---|
| Prydeinig (gan gynnwys Cymreig, Albanaidd, Seisnig a Gwyddelig) | 1221 |
| Ddim yn Brydeinig | 34 |
| Heb ei nodi | 2241 |

**Yn ôl grŵp ethnig:**

| | |
|---|---|
| Gwyn | 707 |
| Arall (gan gynnwys Asiaidd, Du, Tsieineaidd, etc.) | 10 |
| Heb ei nodi | 2778 |

**Yn ôl crefydd:**

| | |
|---|---|
| Cristnogaeth | 396 |
| Arall (gan gynnwys Iddewiaeth, Islam, Bwdaeth etc.) | 13 |
| Neb | 251 |
| Heb ei nodi | 2812 |

**Yn ôl anabledd:**

| | |
|---|---|
| Salwch tymor hir, problem iechyd neu anabledd | 29 |
| Neb | 87 |
| Heb ei nodi | 3375 |

**Yn ôl tueddfryd rhywiol:**

| | |
|---|---|
| Syth/gwahanrywiol | 669 |
| Hoyw/lesbiaidd | 15 |
| Deurywiol | * |
| Arall | * |
| Heb ei nodi | 2800 |

**Yn ôl hunaniaeth rhywedd:**

| | |
|---|---|
| Uniaethu fel trawsryweddol | * |
| Ddim yn uniaethu fel trawsryweddol | 698 |
| Heb ei nodi | 2792 |